

# Atodiad A Adolygiad o gynlluniau, rhaglenni ac amcanion gwarchod yr amgylchedd

Nod yr adolygiad o gynlluniau, rhaglenni ac amcanion gwarchod yr amgylchedd yw llywio'r Arfarniad Cynaliadwyedd drwy nodi dogfennau allanol allweddol sy'n cynnwys cyfarwyddyd ar faterion cynaliadwyedd. Esbonnir mwy o wybodaeth am y swyddogaeth a darperir crynodeb ar gyfer pob pwnc yn Adran 4 y prif Adroddiad Cwmpasu Arfarnu Cynaliadwyedd.

## A.1 Cynlluniau, rhaglenni ac amcanion gwarchod rhyngwladol

Tabl A.1 Cynlluniau, rhaglenni, ac amcanion gwarchod rhyngwladol

Enw'r ddogfen	Disgrifiad	Perthynas â Strategaeth Rheoli Dŵr Dyffryn Hafren (SVWMS)	Cysylltiadau â phynciau Arfarnu Cynaliadwyedd
<b>Rhyngwladol</b>			
<b>Y Confensiwn ynghylch Gwarchod Treftadaeth Ddiwylliannol a Naturiol y Byd</b> (Saesneg yn unig)	Mae'r Confensiwn yn diffinio'r math o safleoedd naturiol neu ddiwylliannol y gellir eu hystyried i'w harysgrifio ar Restr Treftadaeth y Byd. Mae'r Confensiwn yn nodi dyletswyddau Gwladwriaethau sy'n Barti wrth nodi safleoedd posibl a'u swyddogaeth wrth eu gwarchod a'u cadw nhw. Trwy lofnodi'r Confensiwn, mae pob gwlad yn addo i warchod ei threftadaeth genedlaethol yn ogystal â'r safleoedd Treftadaeth y Byd a leolir ar ei thiriogaeth. Mae Erthygl 5 yn ymrwymo Gwladwriaethau sy'n Barti i integreiddio'r broses o warchod treftadaeth diwylliannol a naturiol mewn rhaglenni cynllunio cynhwysfawr ac i gymryd y mesurau priodol i warchod, cadw ac adfer treftadaeth diwylliannol a naturiol.	Dylid datblygu SVWMS er mwyn sicrhau ei bod yn cefnogi'r broses o warchod a chadw safleoedd Treftadaeth y Byd UNESCO. Er nad oes Safleoedd Treftadaeth y Byd yn ardal y dalgylch, mae posibilrwydd o fod o fudd i Safle Treftadaeth y Byd Ceunant Ironbridge sydd i lawr yr afon ar Afon Hafren ac sy'n gorlifo'n rheolaidd. Dylai SVWMS ymdrechu i sicrhau cysondeb â'r egwyddor drosfwaol a nodir yn Erthygl 4: sicrhau bod treftadaeth diwylliannol a naturiol yn cael ei nodi, ei gwarchod, ei chadw, ei chyflwyno a'i throsglwyddo (er nad yw'r amodau a	Bioamrywiaeth, Treftadaeth ddiwylliannol, Defnydd tir a Thirwedd

Enw'r ddogfen	Disgrifiad	Perthynas â Strategaeth Rheoli Dŵr Dyffryn Hafren (SVWMS)	Cysylltiadau â phynciau Arfarnu Cynaliadwyedd
		nodir yn Erthyglau 1 a 2 wedi eu bodloni yn yr ardal).	
<b>Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol</b> (Saesneg yn unig)	Offeryn cyfreithiol rhyngwladol ar gyfer “cadw amrywiaeth fiolegol, defnyddio ei helfennau yn gynaliadwy a rhannu'r buddion sy'n deillio o ddefnyddio adnoddau genetig mewn modd teg a chyfiawn” yw'r Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol ac mae wedi ei gadarnhau gan 196 o genhedloedd. Ei amcan cyffredinol yw annog camau gweithredu a fydd yn arwain at ddyfodol cynaliadwy. Mae'r Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol yn cynnwys bioamrywiaeth ar bob lefel: ecosystemau, rhywogaethau ac adnoddau genetig.	Dylai SVWMS gadw a gwella amrywiaeth fiolegol drwy osgoi effeithiau negyddol ar gynefin a rhywogaethau a sicrhau cynnydd net bioamrywiaeth.	Bioamrywiaeth
<b>Confensiwn ar Gadwraeth Bywyd Gwyllt a Chynefinoedd Naturiol Ewrop (Cyfres Cytundeb Ewropeaidd Rhif 104)</b> (Saesneg yn unig)	<p>Nod y Confensiwn yw sicrhau cadwraeth rhywogaethau fflora a ffawna gwyllt a'u cynefinoedd. Rhoddir sylw arbennig i rywogaethau sydd mewn perygl ac sydd dan fygythiad, gan gynnwys rhywogaethau mudol sydd mewn perygl ac sydd dan fygythiad.</p> <p>Mae'n ofynnol i aelodau sy'n barti ymgymryd â mesurau priodol i sicrhau cadwraeth cynefinoedd y rhywogaethau fflora a ffawna gwyllt. Dylid cynnwys mesurau o'r fath ym mholisiau cynllunio a datblygu a rheolaeth llygredd y Partion, gan roi sylw arbennig i gadwraeth fflora a ffawna gwyllt.</p>	Dylai SVWMS gadw a gwella rhywogaethau fflora a ffawna gwyllt a chynefinoedd cysylltiedig. Mae hyn yn cynnwys rhywogaethau sydd mewn perygl.	Bioamrywiaeth
<b>Confensiwn ar Gadwraeth</b>	Mabwysiadwyd y Confensiwn ym 1979 a daeth i rym ym 1983. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i	Dylai SVWMS gadw a gwella rhywogaethau mudol a'u	Bioamrywiaeth

Enw'r ddogfen	Disgrifiad	Perthynas â Strategaeth Rheoli Dŵr Dyffryn Hafren (SVWMS)	Cysylltiadau â phynciau Arfarnu Cynaliadwyedd
<b>Rhywogaethau Mudol o Anifeiliaid Gwyllt</b> (Saesneg yn unig)	Bartïon weithio gyda'i gilydd i gadw rhywogaethau mudol a'u cynefinoedd drwy ddarparu gwarchodaeth lem ar gyfer rhywogaethau mudol sydd mewn perygl.	cynefinoedd. Mae hyn yn cynnwys lle gallai SVWMS effeithio ar rywogaethau, megis rhywogaethau dyfrol, lle mae'r rhain wedi eu lleoli ar ffiniau'r cynllun.	
<b>Confensiwn ar Wlyptiroedd o Bwysigrwydd Rhyngwladol yn enwedig fel Cynefin Adar Dŵr</b> (Saesneg yn unig)	Cytundeb rhynglywodraethol sydd â'r nod o gadw gwlyptiroedd drwy weithredu lleol a chenedlaethol a chydweithrediad rhyngwladol yw'r Confensiwn. Mae Gwlyptiroedd o Bwysigrwydd Rhyngwladol (Safleoedd Ramsar) a ddatganwyd o dan y Confensiwn ar Wlyptiroedd o Bwysigrwydd Rhyngwladol, yn enwedig gan fod Cynefinoedd Adar y Dŵr 1971 yn cael eu hystyried yn safleoedd dynodedig Ewropeaidd fel mater o Bolisi y Llywodraeth.	Dylai SVWMS gadw a gwella safleoedd Ramsar ac osgoi effeithiau andwyol uniongyrchol ac anuniongyrchol i'r safleoedd hyn.	Bioamrywiaeth
<b>Confensiwn Tirweddau Ewropeaidd</b> (Saesneg yn unig)	<p>Mae Confensiwn Tirweddau Ewropeaidd yn hybu'r broses o warchod, rheoli a chynllunio tirweddau Ewropeaidd ac yn trefnu cydweithrediad Ewropeaidd ar faterion tirwedd. Mae'n agored i'w lofnodi gan aelod-wladwriaethau Cyngor Ewrop yn ogystal â gwladwriaethau Ewropeaidd nad ydynt yn aelod.</p> <p>Mae Confensiwn Tirweddau Ewropeaidd yn ei gwneud yn ofynnol i [Saesneg yn unig] "landscape to be integrated into regional and town planning policies and in cultural, environmental, agricultural, social and economic policies, as well as any other policies with</p>	Bydd SVWMS yn integreiddio'r broses o warchod, rheoli a chynllunio tirwedd a bydd yn cydnabod pwysigrwydd tirwedd fel rhan hanfodol o ddyfodol cynaliadwy. Gallai hyn fod ar ffurf seilwaith gwyrdd sy'n seiliedig ar leoedd, amcanion tirwedd sy'n seiliedig ar ddealltwriaeth o werthoedd cymdeithasol, neu ymaddasu ar gyfer newid yn yr hinsawdd.	Defnydd tir a Thirwedd

Enw'r ddogfen	Disgrifiad	Perthynas â Strategaeth Rheoli Dŵr Dyffryn Hafren (SVWMS)	Cysylltiadau â phynciau Arfarnu Cynaliadwyedd
	possible direct or indirect impacts on landscape".		
<b>Cytundeb Paris</b> (Saesneg yn unig)	<p>Cytuniad rhyngwladol ar newid yn yr hinsawdd sy'n gyfreithiol rwymol yw Cytundeb Paris. Fe'i mabwysiadwyd gan 196 o Bartïon yng Nghynhadledd y Cenhedloedd Unedig ar Newid Hinsawdd (COP21) ym Mharis, Ffrainc, ar 12 Rhagfyr 2015. Daeth i rym ar 4 Tachwedd 2016.</p> <p>Ei nod trosfwaol yw cadw [Saesneg yn unig] "the increase in the global average temperature to well below 2°C above pre-industrial levels" a mynd ar drywydd ymdrechion [Saesneg yn unig] "to limit the temperature increase to 1.5°C above pre-industrial levels".</p> <p>Mae'r Cytundeb yn pennu nodau hirdymor i arwain yr holl genhedloedd:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr byd-eang yn sylweddol er mwyn cyfyngu cynnydd mewn tymheredd byd-eang y ganrif hon i 2 radd Celsius gan ymdrechu i gyfyngu ar y cynnydd hyd yn oed ymhellach, i 1.5 gradd;</li> <li>• Adolygu ymrwymadau gwledydd bob pum mlynedd;</li> <li>• Darparu cyllid i wledydd sy'n datblygu fel y gallant liniaru newid yn yr hinsawdd, cryfhau cydnheredd a gwella'r gallu i ymaddasu i effeithiau hinsawdd</li> </ul>	<p>Dylai SVWMS gefnogi'r ymrwymadau yng Nghytundeb Paris drwy helpu i liniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd drwy wella rheolaeth dŵr yn y dalgylch. Nod y cynllun yw helpu i leihau effeithiau cyfredol llifogydd a sychder, a'u heffeithiau yn y dyfodol. Dylai'r cynllun hefyd geisio lleihau allyriadau carbon, megis drwy ddefnyddio atebion ar sail natur. Bydd hyn yn helpu i gefnogi ymrwymadau Cytundeb Paris, gan gynnwys cyrraedd sero net erbyn 2050.</p>	Ffactorau hinsoddol

Enw'r ddogfen	Disgrifiad	Perthynas â Strategaeth Rheoli Dŵr Dyffryn Hafren (SVWMS)	Cysylltiadau â phynciau Arfarnu Cynaliadwyedd
<p><b>Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig (2015)</b> (Saesneg yn unig)</p>	<p>Mabwysiadwyd y Nodau Datblygu Cynaliadwy gan y Cenhedloedd Unedig yn 2015 fel galwad gyffredinol i weithredu i ddod â thlodi i ben, i warchod y blaned, ac i sicrhau bod pawb yn mwynhau heddwch a ffyniant erbyn 2030.</p> <p>Mae'r 17 o Nodau Datblygu Cynaliadwy sydd wedi eu hintegreiddio—maent yn cydnabod y bydd gweithredu mewn un maes yn effeithio ar ganlyniadau mewn meysydd eraill, a bod yn rhaid i'r datblygiad gydbwyso cynaliadwyedd cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Y Nodau Datblygu Cynaliadwy yw:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Nod Datblygu Cynaliadwy 1: Dim Tlodi</li> <li>• Nod Datblygu Cynaliadwy 2: Dim Newyn</li> <li>• Nod Datblygu Cynaliadwy 3: Iechyd a Llesiant Da</li> <li>• Nod Datblygu Cynaliadwy 4: Addysg o Ansawdd</li> <li>• Nod Datblygu Cynaliadwy 5: Cydraddoldeb Rhywiol</li> <li>• Nod Datblygu Cynaliadwy 6: Dŵr Glân a Glanweithdra</li> <li>• Nod Datblygu Cynaliadwy 7: Ynni Fforddiadwy a Glân</li> <li>• Nod Datblygu Cynaliadwy 8: Gwaith Teilwng a Thwf Economaidd</li> <li>• Nod Datblygu Cynaliadwy 9: Diwydiant, Arloesi a Seilwaith</li> </ul>	<p>Dylai SVWMS integreiddio Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig. Dylai hyn gynnwys edrych ar y targedau a'r dangosyddion ar gyfer pob Nod Datblygu Cynaliadwy ac ystyried sut i drosi'r rhain yn ddangosyddion perfformiad allweddol ar lefel leol. Mae gan SVWMS y potensial o gefnogi llawer o'r Nodau Datblygu Cynaliadwy, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Nod Datblygu Cynaliadwy 3 Iechyd a Llesiant da drwy leihau salwch a marwolaeth sy'n deillio o lygredd amgylcheddol</li> <li>• Nod Datblygu Cynaliadwy 6 Dŵr glân a glanweithdra drwy wella ansawdd dŵr, gweithredu rheolaeth adnoddau dŵr integredig a gwarchod ac adfer ecosystemau sy'n gysylltiedig â dŵr</li> <li>• Nod Datblygu Cynaliadwy 11 Dinasoedd a chymunedau cynaliadwy drwy warchod a diogelu treftadaeth diwylliannol a naturiol yn ardal y dalgylch ac i lawr yr afon</li> <li>• Nod Datblygu Cynaliadwy 13 Gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd drwy gryfhau</li> </ul>	<p>Ansawdd Aer, Bioamrywiaeth, Ffactorau Hinsoddol, Treftadaeth ddiwylliannol, yr Economi, Cyflyrau'r ddaear (pridd a daeareg), seilwaith a thrafnidiaeth, Defnydd tir a Thirwedd, Poblogaeth ac iechyd dynol (cymunedau), Adnoddau a gwastraff, yr Amgylchedd dŵr</p>

Enw'r ddogfen	Disgrifiad	Perthynas â Strategaeth Rheoli Dŵr Dyffryn Hafren (SVWMS)	Cysylltiadau â phynciau Arfarnu Cynaliadwyedd
	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Nod Datblygu Cynaliadwy 10: Llai o Anghydraddoldeb</li> <li>• Nod Datblygu Cynaliadwy 11: Dinasoedd a Chymunedau Cynaliadwy</li> <li>• Nod Datblygu Cynaliadwy 12: Defnyddio a Chynhyrchu'n Gyfrifol</li> <li>• Nod Datblygu Cynaliadwy 13: Gweithredu ar y Newid yn yr Hinsawdd</li> <li>• Nod Datblygu Cynaliadwy 14: Bywyd o Dan y Dŵr</li> <li>• Nod Datblygu Cynaliadwy 15: Bywyd ar y Tir</li> <li>• Nod Datblygu Cynaliadwy 16: Heddwch, Cyfiawnder a Sefydliadau Cadarn</li> <li>• Nod Datblygu Cynaliadwy 17: Gweithio Mewn Partneriaeth i Gyflawni'r Nodau</li> </ul>	<p>cydnerthedd a chapasiti sy'n addasol i beryglon sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Nod Datblygu Cynaliadwy 15 Bywyd ar y tir drwy sicrhau cadwraeth, adferiad a defnydd cynaliadwy o ecosystemau dŵr croyw mewndirol a daearol a'u gwasanaethau, adfer tir a phridd diraddiedig, helpu i atal cynefinoedd rhag cael eu colli ac integreiddio gwerthoedd ecosystem a bioamrywiaeth i'r broses gynllunio cenedlaethol a lleol.</li> <li>• Nod Datblygu Cynaliadwy 17 Gweithio mewn partneriaeth agos â rhanddeiliaid ledled y dalgyrch.</li> </ul>	

## A.2 Cynlluniau, rhaglenni ac amcanion gwarchod cenedlaethol

Tabl A.2 Cynlluniau, rhaglenni ac amcanion gwarchod cenedlaethol

Enw'r ddogfen	Disgrifiad	Perthynas â Strategaeth Rheoli Dŵr Dyffryn Hafren (SVWMS)	Cysylltiadau â phynciau Arfarnu Cynaliadwyedd
<b>Cymru a Lloegr</b>			
<b>Deddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979</b>	Mae Deddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979 yn diffinio 'henebion cofrestredig' (safleoedd sy'n cyfiawnhau gwarchodaeth) ac yn gwneud difrod i henebion cofrestredig yn drosedd. Yng Nghymru, diwygiwyd y Ddeddf hon gan Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016.	Dylid datblygu SVWMS i sicrhau nad yw'n achosi difrod i henebion cofrestredig.	Treftadaeth ddiwylliannol
<b>Build Back Better: our plan for growth</b> (Saesneg yn unig)	Papur polisi gan Drysorlys EM a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021. Cyhoeddiad sy'n nodi cynlluniau'r llywodraeth i gefnogi twf economaidd drwy fuddsoddi'n sylweddol mewn seilwaith, sgiliau ac arloesedd. Wrth greu twf, mae ganddo'r nod hefyd o sbarduno'r broses o lefelu'r DU tuag i fyny, cefnogi'r newidiad i Sero Net a chefnogi'r weledigaeth am Brydain Fyd-eang.	Dylai SVWMS gefnogi'r newid i sero net drwy weithredu ymyriadau carbon isel, gan gynnwys atebion ar sail natur. Dylai gefnogi'r agenda lefelu tuag i fyny hefyd drwy gefnogi twf economaidd ym Mhowys a Swydd Amwythig a thargeddu mesurau i gefnogi'r rhai sydd â'r risg fwyaf ac sydd fwyaf agored i niwed.	Yr Economi, Seilwaith a thrafnidiaeth, Poblogaeth ac iechyd dynol (cymunedau)
<b>Strategaeth Aer Glân 2019</b> (Saesneg yn unig)	Mae'r strategaeth hon yn nodi'r camau gweithredu cynhwysfawr sydd eu hangen ar draws pob rhan o'r llywodraeth a'r gymdeithas i wella ansawdd yr aer. Mae'r strategaeth yn nodi sut y bydd y llywodraeth yn gwneud yr hyn a ganlyn: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Diogelu iechyd y genedl</li> </ul>	Yn ogystal â lleihau llygryddion, dylai SVWMS wella ansawdd yr aer gymaint â phosibl, yn enwedig lle mae ansawdd yr aer yn wael, gan ddefnyddio Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer i gefnogi'r gwaith o flaenoriaethu ymyriadau.	Ansawdd Aer, Bioamrywiaeth, Poblogaeth ac iechyd dynol (cymunedau)

Enw'r ddogfen	Disgrifiad	Perthynas â Strategaeth Rheoli Dŵr Dyffryn Hafren (SVWMS)	Cysylltiadau â phynciau Arfarnu Cynaliadwyedd
	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwarchod yr amgylchedd</li> <li>• Sicrhau twf glân ac arloesedd</li> <li>• Lleihau allyriadau sy'n deillio o drafnidiaeth, cartrefi, ffermio a diwydiant</li> <li>• Monitro ein cynnydd</li> </ul>		
<b>Y Strategaeth Twf Glân</b> (Saesneg yn unig)	<p>Mae'r strategaeth hon yn nodi cynigion ar gyfer datgarboneiddio holl sectorau economi y DU drwy'r 2020au. Mae'n esbonio sut y gall y wlad gyfan elwa o gyfleoedd carbon isel, gan fodloni ymrwymadau cenedlaethol a rhyngwladol i fynd i'r afael â newid hinsawdd. Mae hyn yn cynnwys allyriadau carbon sy'n gysylltiedig â chyflenwi dŵr.</p>	<p>Dylai SVWMS ystyried sut i ddatgarboneiddio'r dŵr sydd ei angen wrth brosesu dŵr, pwmpio dŵr a rheoli llifogydd a cheisio hybu'r broses o atafaelu carbon a chyfalaf naturiol y tir yn y dalgylch.</p>	<p>Bioamrywiaeth, Ffactorau hinsoddol, yr Economi, Seilwaith a thrafnidiaeth, Poblogaeth ac iechyd dynol (cymunedau), Adnoddau a gwastraff</p>
<b>Deddf Newid yn yr Hinsawdd 2008</b>	<p>Mae Deddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 yn ymrwmo'r DU i sicrhau lleihad o [Saesneg yn unig] 'at least 100% below the 1990 baseline year' mewn Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr sero net) erbyn 2050. Mae hyn yn cynnwys lleihau allyriadau o Gymru, yr Alban, a Gogledd Iwerddon. Mae'r Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i lywodraeth y DU lunio Rhaglen Ymaddasu Genedlaethol, sy'n nodi camau fel y gall y llywodraeth ac eraill ymaddasu i heriau newid yn yr hinsawdd yn Lloegr yn ystod cyfnod o bum mlynedd. Mae'r gweinyddiaethau datganoledig yn llunio eu rhaglenni a'u polisïau eu hunain.</p>	<p>Dylai SVWMS ystyried risgiau llawn newid yn yr hinsawdd yn y dalgylch i ddeall beth yw'r heriau a'r cyfleoedd mewn cysylltiad â rheoli dŵr Afon Hafren ac effeithiau'r prosesau rheoli dŵr. Dylai SVWMS sicrhau y gellir cyflawni hyn o fewn cyllidebau carbon blynyddol Asiantaeth yr Amgylchedd o ystyried eu bod yn gydnaws â llwybr glanio carbon Cytundeb Paris ac yn sicrhau gweithrediadau sero net erbyn 2050.</p>	<p>Ffactorau hinsoddol</p>



Enw'r ddogfen	Disgrifiad	Perthynas â Strategaeth Rheoli Dŵr Dyffryn Hafren (SVWMS)	Cysylltiadau â phynciau Arfarnu Cynaliadwyedd
<p><b>Newid hinsawdd: Y Drydedd Raglen Ymaddasu Genedlaethol (2023 i 2028)</b> (Saesneg yn unig)</p>	<p>Mae'r Rhaglen Ymaddasu Genedlaethol yn pennu'r camau y bydd y llywodraeth ac eraill yn eu cymryd i ymaddasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd yn y DU.</p> <p>Mae'r Drydedd Raglen Ymaddasu Genedlaethol yn nodi'r camau gweithredu allweddol ar gyfer 2023 i 2028. Mae'r adroddiad hwn yn rhan o'r cylch pum mlynedd o ofynion a nodir yn Neddff Newid yn yr Hinsawdd 2008. Mae'r camau allweddol yn canolbwyntio ar warchod yr amgylchedd naturiol, cefnogi busnesau i ymaddasu i newid yn yr hinsawdd, addasu ein seilwaith, diogelu adeiladau a'u hamgylchedd, diogelu iechyd y cyhoedd a chymunedau a lliniaru effeithiau rhyngwladol ar y DU.</p>	<p>Dylai SVWMS helpu i gyfrannu at y camau gweithredu a'r targedau a amlinellir yn y Drydedd Raglen Ymaddasu Genedlaethol. Mae hyn yn cynnwys helpu i liniaru effeithiau ar seilwaith sy'n deillio o lifogydd a chefnogi'r broses o adfer a gwella'r amgylchedd naturiol er mwyn cynyddu ei allu i wrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd. Er enghraifft, drwy ddefnyddio atebion ar sail natur i helpu i leihau'r graddau y mae cymdeithas yn agored i risg yn sgil yr hinsawdd a chyfrannu at adferiad rhywogaethau drwy ddarparu rhagor o gynefinoedd o ansawdd uchel ar gyfer bywyd gwylt. Dylai SVWMS helpu i gefnogi iechyd a llesiant, a'r camau gweithredu treftadaeth a amlinellir yn y Rhaglen Ymaddasu Genedlaethol hefyd, megis drwy ddarparu seilwaith gwyrdd a all helpu i leihau gorboethi, a lleihau perygl llifogydd asedau treftadaeth.</p>	<p>Ansawdd Aer, Bioamrywiaeth, Ffactorau Hinsoddol, Treftadaeth ddiwylliannol, yr Economi, Defnydd tir a Thirwedd, Poblogaeth ac iechyd dynol (cymunedau)</p>
<p><b>Deddf Rheoli Llygredd 1974</b></p>	<p>Mae'r Ddeddf hon yn rheoleiddio'r hyn a ganlyn: gwaredu gwastraff, llygredd dŵr, sŵn, llygredd atmosfferig, ac iechyd y cyhoedd; ac at ddibenion sy'n gysylltiedig â'r materion hyn. Mae Rhan I o'r Ddeddf yn rheoli gwastraff ar dir ac yn datgan o dan y ddeddf (ac eithrio mewn achosion rhagnodedig) na fydd rhywun yn</p>	<p>Dylai SVWMS gydymffurfio â'r Rheoliadau. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod y gwastraff a'r llygryddion yn cael eu rheoli a'u gwaredu'n gywir ac nad ydynt yn achosi niwed i'r amgylchedd.</p>	<p>Ansawdd Aer, Bioamrywiaeth, Poblogaeth ac iechyd dynol (cymunedau), yr Amgylchedd dŵr</p>

Enw'r ddogfen	Disgrifiad	Perthynas â Strategaeth Rheoli Dŵr Dyffryn Hafren (SVWMS)	Cysylltiadau â phynciau Arfarnu Cynaliadwyedd
	<p>dyddodi, achosi na chaniatáu yn ymwybodol i wastraff rheoledig gael ei ddyddodi ar dir. Mae Rhan II, sy'n ymwneud â llygryddion sy'n mynd i ddŵr, yn nodi bod rhywun yn euog o drosedd os yw'n caniatáu i wastraff gwenwynig neu solet fynd i mewn i nentydd heb awdurdod.</p> <p>Mae Adran 40 o'r Ddeddf yn rhoi pwerau i awdurdodau lleol reoli sŵn a dirgryniad sy'n deillio o safleoedd datblygu. Mae Rhan IV yn ymwneud ag atal llygredd atmosfferig.</p>		
<p><b>Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000</b></p>	<p>Mae'r Ddeddf yn ymdrin â newidiadau o ran mynediad i gefn gwlad. Mae hyn yn cynnwys tir mynediad agored, Hawliau Tramwy Cyhoeddus, cryfhau mesurau cadwraeth natur a gwarchod bywyd gwylt ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE).</p>	<p>Lleolir rhan o Ddalgylch Hafren Uchaf yn AHNE Swydd Amwythig. Dylai SVWMS sicrhau nad yw'n atal nac yn amharu ar harddwch naturiol yr ardal, a cheisio ei wella.</p>	<p>Bioamrywiaeth, Seilwaith a thrafnidiaeth, Defnydd tir a Thirwedd, Poblogaeth ac iechyd dynol (cymunedau)</p>
<p><b>Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010</b></p>	<p>Mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer gwell rheolaeth perygl o lifogydd i bobl, cartrefi a busnesau, gan fynd i'r afael hefyd â bygythiad prinder dŵr a diogelu fforddiadwyedd taliadau draenio dŵr a diogelu cyflenwadau dŵr i'r defnyddiwr.</p>	<p>Dylai SVWMS gydymffurfio â gofynion y Ddeddf. Dylai SVWMS helpu i reoli dŵr yn y dalgylch yn well er mwyn helpu i leihau'r perygl o lifogydd i bobl, eiddo a seilwaith a helpu i leihau effeithiau sychder ar y cyflenwad dŵr. Dylid datblygu SVWMS mewn partneriaeth ag awdurdodau rheoli risg eraill i gyflawni rheolaeth perygl o lifogydd er mwyn bod o fudd gwell i gymunedau.</p>	<p>Ffactorau hinsoddol, Poblogaeth ac iechyd dynol (cymunedau), yr Amgylchedd dŵr</p>

Enw'r ddogfen	Disgrifiad	Perthynas â Strategaeth Rheoli Dŵr Dyffryn Hafren (SVWMS)	Cysylltiadau â phynciau Arfarnu Cynaliadwyedd
<p><b>Datganiadau Sefyllfa Diogelu Dŵr Daear (GP3 gynt)</b> (Saesneg yn unig)</p>	<p>Mae'r datganiadau sefyllfa hyn yn disgrifio dull Asiantaeth yr Amgylchedd o reoli a gwarchod dŵr daear. Maent yn diweddarau Groundwater protection: principles and practice (GP3). Mae'r ddogfen hon yn helpu unrhyw un yr effeithir ei weithgareddau cyfredol neu arfaethedig gan ddŵr daear sy'n gweithredu fel:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Datblygwr</li> <li>• Cynlluniwr</li> <li>• Ymgeiswyr a deiliaid trwyddedau amgylcheddol</li> <li>• Tynwyr dŵr</li> </ul> <p>Mae llawer o'r dulliau a nodir yn y datganiadau sefyllfa nad ydynt yn statudol, ond mae'n bosibl y cânt eu cynnwys mewn canllawiau statudol a deddfwriaeth, neu y cyfeirir atynt drwy ganllawiau statudol a deddfwriaeth. Mae staff Asiantaeth yr Amgylchedd yn defnyddio'r datganiadau sefyllfa hyn fel fframwaith i wneud penderfyniadau ar weithgareddau a allai effeithio ar ddŵr daear. Nod y dull clir hwn yw cael gwared ar ansicrwydd a'r posibilrwydd o wneud penderfyniadau anghyson.</p>	<p>Dylai SVWMS ystyried y canllawiau atal llygredd a'r datganiadau sefyllfa wrth ddylunio ac adeiladu unrhyw ymyriadau dalgylch. Noder bod CNC wedi mabwysiadu dull Asiantaeth yr Amgylchedd ar gov.uk.</p>	<p>Cyflyrau'r ddaear (pridd a daeareg)</p>
<p><b>Gorchymyn Rhywogaethau Goresgynnol Estron (Gorfodi a</b></p>	<p>Mae Gorchymyn Rhywogaethau Goresgynnol Estron (Gorfodi a Thrwyddedu) 2019 yn rhoi effaith i reoliadau'r UE ar atal a rheoli lledaeniad rhywogaethau goresgynnol estron. Mae'n rhestru 66 o rywogaethau sydd o bryder arbennig. Mae'r rheoliadau hyn yn berthnasol i</p>	<p>Dylai SVWMS gynnwys mesurau i sicrhau nad yw'r risg o rywogaethau estron goresgynnol, na'u lledaeniad, yn cynyddu drwy'r cynllun.</p>	<p>Bioamrywiaeth, Adnoddau a gwastraff, yr Amgylchedd dŵr</p>

Enw'r ddogfen	Disgrifiad	Perthynas â Strategaeth Rheoli Dŵr Dyffryn Hafren (SVWMS)	Cysylltiadau â phynciau Arfarnu Cynaliadwyedd
<b>Thrwyddedu) 2019</b>	<p>sbesimenau byw ac unrhyw beth a all atgynhyrchu ohonynt, megis hadau, sborau a darnau o blanhigion.</p> <p>Mae'r rheoliadau'n ei gwneud yn drosedd cyflawni unrhyw un o'r gweithgareddau canlynol â rhywogaethau rhestredig, ac eithrio pan fo trwydded, caniatâd neu eithriad ar waith:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mewnforio</li> <li>• Cadw</li> <li>• Bridio</li> <li>• Cludo (ac eithrio cludo er mwyn dileu)</li> <li>• Rhoi ar y farchnad</li> <li>• Cyfnewid</li> <li>• Gadael iddynt dyfu, eu ffermio neu ganiatáu iddynt atgynhyrchu</li> <li>• Rhyddhau i'r amgylchedd</li> </ul>		
<b>Net Zero Strategy: Build Back Greener</b> (Saesneg yn unig)	<p>Mae Net Zero Strategy (strategaeth sero net) Llywodraeth y DU yn nodi cynllun hirdymor y llywodraeth i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr i lefel 1990 a diwedd cyfraniad domestig y DU at newid hinsawdd o waith dyn erbyn 2050. Mae pedair egwyddor allweddol a nodir yn y dull o gyflawni'r targed:</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Byddwn yn gweithio gyda'r grawn a ddewisir gan y defnyddwyr</li> <li>2. Byddwn yn sicrhau mai'r llygrwyr mwyaf sy'n talu'r mwyaf am y trawsnewidiad</li> <li>3. Byddwn yn sicrhau bod y rhai sydd yn y perygl mwyaf yn cael eu gwarchod drwy gefnogaeth y llywodraeth</li> </ol>	<p>Dylai SVWMS fod yn ymrwymedig i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr. Bydd y strategaeth yn cefnogi'n enwedig yr egwyddor o ddiogelu'r rhai sydd yn y perygl mwyaf oherwydd newid yn yr hinsawdd. Mae gan goedwigo, adfer cynefinoedd a theithio llesol y potensial o fod yn agweddau allweddol ar SVWMS.</p>	<p>Ffactorau hinsoddol</p>

Enw'r ddogfen	Disgrifiad	Perthynas â Strategaeth Rheoli Dŵr Dyffryn Hafren (SVWMS)	Cysylltiadau â phynciau Arfarnu Cynaliadwyedd
	<p>4. Byddwn yn gweithio gyda busnesau i barhau i gyflawni gostyngiadau cost sylweddol mewn technoleg carbon isel</p> <p>Mae'r strategaeth yn nodi polisiau a chynigion ar gyfer cyllidebau carbon pum mlynedd yn y dyfodol, y Cyfraniad a Ddiffinnir yn Genedlaethol a gweledigaeth o economi sydd wedi ei ddatgarboneiddio yn 2050.</p> <p>Mae polisiau a chynigion yn y strategaeth sero net yn cynnwys: treblu cyfraddau creu coetiroedd yn Lloegr, adfer 280,000 ha o fawn a chyflawni mwy na 300 o gynlluniau cerdded a beicio.</p>		
<p><b>Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990</b></p>	<p>Deddf Seneddol y DU a gyflwynwyd ym 1990 a newidiodd gyfreithiau yn ymwneud â rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer gwaith adeiladu, gyda phwyslais penodol ar adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth yw Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth). Creodd reolaethau arbennig ar gyfer dymchwel, newid neu estyn adeiladau, gwrthrychau neu strwythurau o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol penodol, yn ogystal ag ardaloedd cadwraeth.</p> <p>Yng Nghymru, diwygiwyd y Ddeddf hon gan Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016.</p>	<p>Dylid datblygu SVWMS er mwyn sicrhau nad yw'n achosi effeithiau andwyol i adeiladau rhestredig nac ardaloedd cadwraeth.</p>	<p>Treftadaeth ddiwylliannol</p>
<p><b>Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975</b></p>	<p>Deddfwriaeth sy'n ceisio gwarchod pysgod dŵr croyw, gyda phwyslais enwedig o gryf ar eogiaid (<i>Salmo salar</i>) a brithyll (<i>Salmo trutta</i>) yw Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw. Mae'r</p>	<p>Dylai SVWMS gefnogi'r broses o warchod a chadw pysgod dŵr croyw drwy helpu i wella ansawdd y dŵr, cynefinoedd a lleihau effeithiau</p>	<p>Bioamrywiaeth, Seilwaith a thrafnidiaeth, yr Amgylchedd dŵr</p>

Enw'r ddogfen	Disgrifiad	Perthynas â Strategaeth Rheoli Dŵr Dyffryn Hafren (SVWMS)	Cysylltiadau â phynciau Arfarnu Cynaliadwyedd
<b>(fel y'i diwygiwyd)</b>	<p>ddeddfwriaeth yn cwmpasu amrywiaeth eang o bynciau, ond mae'n enwedig o berthnasol i ddatblygiad yr adrannau hynny sy'n cwmpasu llygredd dŵr, aflonyddu ar gynefinoedd a llwybrau mudo pysgod.</p> <p>O dan Adran 2 (4), mae'n drosedd tarfu'n fwriadol ar sil, pysgod sy'n silio neu silfa ac, o dan Adran 4 (1), mae'n drosedd caniatáu llif sylwedd gwenwynig a llygryddion yn fwriadol i gyrsiau afonydd sy'n wenwynig neu'n niweidiol i bysgod neu silfeydd, sil neu fwyd pysgod. Mae adrannau 9 i 15 yn ymwneud â hynt a mudo pysgod. Wrth adeiladu argaeau, sgriniau neu lifddorau, dyletswydd perchennog y ddyfrffordd yw darparu a chynnal ysgol bysgod hwyluso ar gyfer eogiaid neu frithyll sy'n mudo.</p>	<p>sychder. Mae gan weithredu SVWMS y potensial hefyd o gael effeithiau andwyol ar bysgod dŵr croyw yn ystod y broses o adeiladu a gweithredu'r cynllun a dylai gynnwys mesurau i osgoi aflonyddwch ac effeithiau andwyol.</p>	
<b>Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017</b>	<p>Efallai y bydd angen asesiad priodol ar gynllun neu brosiect hefyd, fel y nodir yn Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y'i diwygiwyd), os ystyrir ei fod yn debygol o gael effeithiau sylweddol ar safle a ddiffinnir yn y ddeddfwriaeth, gan gynnwys darpar ACAau, Safleoedd o Bwys i'r Gymuned, ACAau, AGAau, Ramsar ac unrhyw Safleoedd Morol perthnasol. Mae Rheoliad 63 o Reoliadau Cynefinoedd 2017 yn datgan bod yn rhaid i unrhyw gynllun neu brosiect nad yw'n gysylltiedig yn uniongyrchol â rheolaeth safle Ewropeaidd neu sy'n angenrheidiol ar gyfer hynny, ond a fyddai'n debygol o gael effaith sylweddol ar safle o'r fath, yn unigol neu ar y cyd â chynlluniau neu</p>	<p>Mae posibilrwydd y bydd prosiectau SVWMS yn y dyfodol effeithio ar yr ACA, AGA, Ramsar a safleoedd dynodedig eraill yn y dalgylch. Felly, dylai'r strategaeth SVWMS ymgymryd â gwaith sgrinio Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ac asesiad priodol os oes angen. Bydd yr Arfarniad Cynaliadwyedd yn ystyried canfyddiadau asesiad priodol.</p>	<p>Bioamrywiaeth, yr Amgylchedd dŵr</p>

Enw'r ddogfen	Disgrifiad	Perthynas â Strategaeth Rheoli Dŵr Dyffryn Hafren (SVWMS)	Cysylltiadau â phynciau Arfarnu Cynaliadwyedd
	<p>brosiectau eraill, fod yn ddarostyngedig i asesiad priodol o'i oblygiadau ar y safle Ewropeaidd o ystyried ei amcanion cadwraeth. Mae Rheoliad 63 o Reoliadau Cynefinoedd 2017 yn datgan na ddylid caniatáu cynllun na phrosiect nes bod yr awdurdod cymwys perthnasol wedi canfod na fydd yn effeithio'n andwyol ar gyfanrwydd safleoedd Ewropeaidd.</p>		
<p><b>Rheoliadau Llyswennod (Cymru a Lloegr) 2009</b></p>	<p>Mae Rheoliadau Llyswennod (Cymru a Lloegr) 2009 yn rhestru darpariaethau megis cynnal ysgolion pysgod lle gallai argaeau neu goredau rwystro afonydd a darpariaeth sgriniau ar allfeydd i osgoi caethiwo pysgod.</p>	<p>Dylai SVWMS osgoi creu rhwystrau i hynt llyswennod, a phan fo hynny'n briodol, dylai geisio cynnwys cyfleoedd i wella hynt llyswennod yn ardal y dalgylch.</p>	<p>Bioamrywiaeth, Seilwaith a thrafnidiaeth, yr Amgylchedd dŵr</p>
<p><b>Rheoliadau Trwyddedu Amgylchedd I (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2018</b></p>	<p>Mae'r offeryn hwn yn diwygio Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016 i sicrhau, ar ôl i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd, eu bod yn parhau'n i fod yn gwbl weithredol. Mae'r Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) (2016) yn atgyfnerthu'r system drwyddedu amgylcheddol yng Nghymru a Lloegr, gan ddisodli Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010. Gwnaethant ehangu'r system drwyddedu a chydymffurfio amgylcheddol bresennol yng Nghymru a Lloegr drwy integreiddio'r cyfundrefnau trwyddedu presennol sy'n cwmpasu atal a rheoli llygredd a thrwyddedu gwaith rheoli gwastraff, cydsyniadau i ollwng dŵr, trwyddedau i dynnu dŵr, dad-ddyfrio adeiladu ac awdurdodi ar gyfer rheoleiddio sylweddau ymbelydrol.</p>	<p>Bydd SVWMS yn cadw at y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol ac yn mynd y tu hwnt i'r gofyniad o ran sicrhau bod niwed amgylcheddol a niwed i iechyd dynol cyn ised â phosibl, gan sicrhau'r buddion amgylcheddol gorau posibl a hybu iechyd a llesiant dynol.</p>	<p>Ansawdd Aer, Bioamrywiaeth, Cyflyrau'r ddaear (pridd a daeareg), Poblogaeth ac iechyd dynol (cymunedau), Adnoddau a gwastraff, yr Amgylchedd dŵr</p>

Enw'r ddogfen	Disgrifiad	Perthynas â Strategaeth Rheoli Dŵr Dyffryn Hafren (SVWMS)	Cysylltiadau â phynciau Arfarnu Cynaliadwyedd
<b>Strategaeth rhywogaethau estron goresgynol Prydain Fawr</b> (Saesneg yn unig)	<p>Papur polisi gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig a gyhoeddwyd ym mis Awst 2015 ac a ddiweddarwyd ym mis Chwefror 2023. Mae'r strategaeth yn gwneud yr hyn a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Nodi'r amcanion a'r camau gweithredu ar gyfer mynd i'r afael â'r bygythiadau a berir gan rywogaethau estron goresgynol.</li> <li>• Yn nodi fframwaith i gyflawni'r ymateb mwyaf effeithiol er mwyn atal, dileu a rheoli rhywogaethau estron goresgynol.</li> <li>• Bod â'r nod o wella cyd-drefniant a chydweithrediad drwy: llywodraeth, rhanddeiliaid, rheolwyr tir a'r cyhoedd yn erbyn rhywogaethau estron goresgynol, ledled Prydain Fawr</li> </ul>	<p>Dylai SVWMS gynnwys mesurau i sicrhau nad yw'r risg o rywogaethau estron goresgynol, na'u lledaeniad, yn cynyddu drwy'r cynllun.</p>	<p>Bioamrywiaeth, Adnoddau a gwastraff, yr Amgylchedd dŵr</p>
<b>Rheoliadau Perthi 1997</b>	<p>Mae Rheoliadau Perthi 1997 yn gwarchod perthi pwysig drwy reoli'r gwaith o'u gwaredu drwy system hysbysu. Mae p'un a yw perth yn warchoddedig ai peidio yn dibynnu ar feini prawf sy'n ymwneud â hyd, lleoliad a 'phwysigrwydd'.</p>	<p>Dylai SVWMS gadw at y gofynion a amlinellir yn y Rheoliadau Perthi (1997).</p>	<p>Bioamrywiaeth, Treftadaeth ddiwylliannol, Defnydd tir a Thirwedd</p>
<b>Rheoliadau Trin Dŵr Gwastraff Trefol (Cymru a Lloegr) 1994</b>	<p>Mae'r Rheoliad hwn yn nodi sut i reoleiddio gwaith gwaredu carthffosiaeth, drwy drosi Cyfarwyddeb Trin Dŵr Gwastraff Trefol yr UE. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i Defra gyhoeddi adroddiad sefyllfa ar ddŵr gwastraff trefol a gwaredu slwtsh, ac asesu cydymffurfiaeth â'r rheoliadau hyn.</p>	<p>Dylai SVWMS gydymffurfio â'r Rheoliadau. Dylai gefnogi'r broses o drin dŵr gwastraff hefyd drwy helpu i arafu a chadw dŵr, gan leihau cyfaint y dŵr wyneb sy'n cael ei gyfeirio at systemau carthffosydd cyfun yn ystod digwyddiadau llifogydd. Gall hyn helpu i leihau'r pwysau ar y systemau hyn ac mae angen defnyddio all-lifau</p>	<p>Adnoddau a gwastraff, Amgylchedd dŵr</p>



Enw'r ddogfen	Disgrifiad	Perthynas â Strategaeth Rheoli Dŵr Dyffryn Hafren (SVWMS)	Cysylltiadau â phynciau Arfarnu Cynaliadwyedd
		carthion cyfun i ryddhau dŵr nas triniwyd i gyrff dŵr.	
<b>Rheoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2014</b>	Daeth y Rheoliadau hyn i rym ar 6 Ebrill 2014. Maent yn diwygio Rheoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) OS 2011/988. Mae'r diwygiadau'n cynnwys dogfennau ynghylch gwastraff rheoledig a throseddau perthnasol. Mae Rheoliadau Dŵr (Cymru a Lloegr) 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i fusnesau gymhwyso'r hierarchaeth rheoli gwastraff, mae'n cyflwyno system ddwy haen ar gyfer cludo gwastraff a chofrestru broceriaid, ac mae'n eithrio rhai categorïau gwastraff o'r rheolaethau gwastraff.	Dylai SVWMS gadw at y Rheoliadau mewn cysylltiad â chynhyrchu a rheoli gwastraff, gan gynnwys integreiddio mesurau i leihau gwastraff a gynhyrchir gan SVWMS.	Adnoddau a gwastraff
<b>Rheoliadau'r Amgylchedd Dŵr (Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) 2017</b>	Mae Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yr UE wedi bod mewn grym ers 2000 ac ar hyn o bryd hi yw'r darn mwyaf a mwyaf dylanwadol o ddeddfwriaeth yr UE sy'n ymwneud â'r amgylchedd dŵr. Cafodd y Gyfarwyddeb ei throsi yn gyfraith y DU gan Reoliadau'r Amgylchedd Dŵr (Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) (2003, a ddiwygiwyd wedyn yn 2015, 2016 a 2017) ac mae gofynion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn parhau i fod ar waith ar hyn o bryd ar ôl i Brydain adael yr UE ym mis Ionawr 2021. Nod y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yw diogelu a gwella ansawdd yr amgylchedd dŵr. Mae'n cymryd ymagwedd gyfannol at reoli dŵr yn gynaliadwy drwy ystyried y rhyngweithiadau rhwng dŵr wyneb, dŵr daear ac ecosystemau sy'n dibynnu ar ddŵr.	Ni ddylai SVWMS beri i statws corff dŵr y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr waethygu nac atal cyrff dŵr rhag cyflawni statws 'Da'. Dylai SVWMS gyfrannu at wella cyrff dŵr y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr hefyd, megis drwy weithredu mesurau i adfer afonydd ac i wella ansawdd y dŵr. Cynhelir asesiad cydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn rhan o SVWMS i ddangos sut mae'r cynllun yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth. Bydd canfyddiadau y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn cael eu hymgorffori yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd.	Bioamrywiaeth, Cyflyrau'r ddaear (pridd a daeareg), Poblogaeth ac iechyd dynol (cymunedau), Adnoddau a gwastraff, yr Amgylchedd dŵr

Enw'r ddogfen	Disgrifiad	Perthynas â Strategaeth Rheoli Dŵr Dyffryn Hafren (SVWMS)	Cysylltiadau â phynciau Arfarnu Cynaliadwyedd
	<p>Amcanion Amgylcheddol cyffredinol y Gyfarwydeb Fframwaith Dŵr yw: Atal dirywiad yn statws ecosystemau dyfrol, eu gwarchod a gwella cyflwr ecolegol dyfroedd:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ceisio sicrhau statws 'da' o leiaf ar gyfer pob corff dŵr erbyn 2015. Pan nad yw hyn yn bosibl ac yn amodol ar y meini prawf a nodir yn y Gyfarwydeb, bod â'r nod o sicrhau statws da erbyn 2021 neu 2027.</li> <li>• Bodloni gofynion Ardaloedd Gwarchodedig y Gyfarwydeb Fframwaith Dŵr.</li> <li>• Hybu defnydd cynaliadwy o ddŵr fel adnodd naturiol.</li> <li>• Gwarchod cynefinoedd a rhywogaethau sy'n dibynnu'n uniongyrchol ar ddŵr.</li> <li>• Lleihau neu roi'r gorau i ryddhau yn raddol lygryddion unigol neu grwpiau o lygryddion sy'n fygythiad sylweddol i'r amgylchedd dyfrol.</li> <li>• Lleihau llygredd dŵr daear yn raddol ac atal neu gyfyngu ar fynediad llygryddion;</li> </ul> <p>Cyfrannu at liniaru effeithiau llifogydd a sychder.</p> <p>Mae Rheoliadau y Gyfarwydeb Fframwaith Dŵr yn ei gwneud yn ofynnol i ddosbarthu statws cyfredol pob corff dŵr ac i bennu amcanion i gynnal neu wella'r statws, fel bod pob corff dŵr yn cyrraedd a/neu'n cynnal statws 'da' erbyn 2027 fan hwyraf (yn amodol ar unrhyw eithriadau).</p>		

Enw'r ddogfen	Disgrifiad	Perthynas â Strategaeth Rheoli Dŵr Dyffryn Hafren (SVWMS)	Cysylltiadau â phynciau Arfarnu Cynaliadwyedd
	<p>Mae'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (2000/60/EC) yn cael ei throsi i gyfraith y DU gan Reoliadau'r Amgylchedd Dŵr (Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) 2017. Maent yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw ddatblygiadau arfaethedig sydd â'r potensial o effeithio ar yr amgylchedd dŵr gynnal asesiad risg i ddangos na fydd y datblygiad arfaethedig yn arwain at waethgu'r statws nac yn atal y corff dŵr rhag cyflawni amcan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Mae'n debygol y bydd angen asesiad risg y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr ar bob prosiect SVWMS yn y dyfodol bron oherwydd gweithgareddau yr ymgymmerir â nhw ar brif afon ac mae'n debygol o fod yn ddarostyngedig i drwydded gweithgaredd perygl o lifogydd.</p>		
<p><b>Rheoliadau Cyflenwi Dŵr (Ansawdd Dŵr) (Diwygio) 2016</b></p>	<p>Cyfuno deddfwriaeth sy'n ymwneud ag ansawdd y cyflenwadau dŵr i'w yfed gan bobl yn Lloegr. Mae'r rheoliadau hefyd yn berthnasol i gyflenwadau yng Nghymru pan leolir yr ymgymmerwr dŵr neu'r trwyddedai yn Lloegr yn bennaf.</p>	<p>Dylai SVWMS helpu i weithredu mesurau i helpu i wella ansawdd y dŵr yn y dalgylch ac i wneud y cyflenwad dŵr yn fwy cydnerth i effeithiau sychder.</p>	<p>Poblogaeth ac iechyd dynol (cymunedau), yr Amgylchedd dŵr</p>
<p><b>Deddf Mamaliaid Gwyllt (Diogelu) 1996</b></p>	<p>Mae'r Ddeddf hon yn rhoi gwarchodaeth benodol ar rywogaethau mamaliaid prin neu dan fygythiad drwy amddiffyn yr holl famaliaid gwyllt rhag unrhyw gamau â'r bwriad o achosi dioddefaint diangen.</p>	<p>Dylid dylunio SVWMS yn y fath fodd fel nad yw'n achosi effeithiau andwyol ar rywogaethau mamaliaid prin neu dan fygythiad, a cheisio ymgorffori mesurau i wella cynefinoedd er mwyn cefnogi'r rhywogaethau hyn.</p>	<p>Bioamrywiaeth</p>

Enw'r ddogfen	Disgrifiad	Perthynas â Strategaeth Rheoli Dŵr Dyffryn Hafren (SVWMS)	Cysylltiadau â phynciau Arfarnu Cynaliadwyedd
<b>Deddf Adnoddau Dŵr 2003</b> (Saesneg yn unig)	Mae'r Ddeddf yn diwygio Deddf a Rheoliadau Adnoddau Dŵr 1991 a Deddf y Diwydiant Dŵr 1991, i gipio'r cyfnod rheoli newydd. Mae gan y Ddeddf y pedwar nod eang canlynol: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Hwyluso defnydd cynaliadwy o adnoddau dŵr a thwf economaidd.</li> <li>• Cryfhau llais defnyddwyr a chynnydd cymedrol mewn cystadleuaeth</li> <li>• Hybu cadwraeth dŵr</li> </ul>	Dylai SVWMS gydymffurfio â'r Ddeddf a chefnogi'r defnydd cynaliadwy o adnoddau dŵr drwy wella rheolaeth dŵr yn y dalgyrch er mwyn darparu'r gallu i wrthsefyll llifogydd a sychder.	Poblogaeth ac iechyd dynol (cymunedau), Adnoddau a gwastraff, yr Amgylchedd dŵr
<b>Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021</b>	Mae'r Ddeddf yn gweithredu mesurau i fynd i'r afael â llygredd amaethyddol yng Nghymru sy'n gysylltiedig ag arferion ffermio. Mae hyn yn cynnwys gofynion mewn cysylltiad â'r hyn a ganlyn: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynllunio er mwyn rheoli maetholion</li> <li>• Cymwysiadau gwrtaith cynaliadwy</li> <li>• Diogelu dŵr rhag llygredd mewn cysylltiad â chymhwyso gwrtaith</li> <li>• Safonau storio tail a silwair</li> </ul>	Dylai SVWMS helpu i weithredu mesurau i wella arferion fframio a helpu i fynd i'r afael â llygredd o dir amaethyddol.	Yr Amgylchedd dŵr, bioamrywiaeth, Defnydd tir a Thirwedd
<b>Deddf Cydraddoldeb 2010</b>	Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn diogelu pobl rhag gwahaniaethu yn y gweithle ac yn y gymdeithas ehangach, gan gynyddu cyfle cyfartal ar yr un pryd. Mae'r Ddeddf yn nodi pwy sy'n cael ei ddiogelu rhag gwahaniaethu (naw nodwedd warchoddedig), y mathau o wahaniaethu o dan y gyfraith a pha gamau y gall rhywun eu cymryd os yw rhywun yn teimlo y gwahaniaethwyd yn ei erbyn yn annheg mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd, er enghraifft, mewn cysylltiad â gwasanaethau, addysg,	Bydd SVWMS yn rhoi sylw dyledus i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus gan nodi lle mae unrhyw ganlyniadau yn arwain at fuddion neu anfanteision sy'n cael effeithiau anghymesur neu wahaniaethol ar grwpiau nodweddion gwarchoddedig mewn cymunedau lleol. Cynhelir Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer y cynllun ac fe'i hadroddir yn Adroddiad Amgylcheddol yr Arfarniad	Yr Economi, Poblogaeth ac iechyd dynol (cymunedau)

Enw'r ddogfen	Disgrifiad	Perthynas â Strategaeth Rheoli Dŵr Dyffryn Hafren (SVWMS)	Cysylltiadau â phynciau Arfarnu Cynaliadwyedd
	<p>mangreoedd a chyflogaeth. Mae Adran 149 o'r Ddeddf yn nodi Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus ('y Ddyletswydd'). Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus roi sylw dyledus i'r angen i wneud yr hyn a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dileu unrhyw achosion o wahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir o dan y Ddeddf.</li> <li>• Hybu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a phobl nad ydynt yn ei rhannu; a</li> <li>• Meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a'r bobl nad ydynt yn ei rhannu.</li> </ul>	<p>Cynaliadwyedd i ddangos sut y bodlonwyd gofynion Deddf Cydraddoldeb a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus 2010.</p>	
<b>Lloegr</b>			
<p><b>Cynllun Amgylchedd 25 Mlynedd</b> (Saesneg yn unig)</p>	<p>Papur polisi gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig a'r Gwir Anrhydeddus Michael Gove, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2018 ac a ddiweddarwyd ym mis Chwefror 2023. Mae'r Cynllun Amgylcheddol 25 Mlynedd (A Green Future: Our 25 Year Plan to Improve the Environment) yn amlinellu cyfres o gamau gweithredu ac amcanion i'w cymryd i helpu'r byd naturiol i adennill iechyd da, a'i gadw. Mae hyn yn cynnwys cyflawni:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Aer glân</li> <li>• Dŵr glân a digonol</li> <li>• Planhigion a bywyd gwyllt ffyniannus</li> </ul>	<p>Dylai SVWMS gefnogi'r broses o gyflawni'r nodau a'r targedau a amlinellir yn y Cynllun Amgylcheddol 25 Mlynedd. Mae llawer o'r targedau a'r camau gweithredu yn benodol o berthnasol i SVWMS, mae hyn yn cynnwys cyflawni:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dŵr glân a digonol drwy helpu cyrff dŵr i gyrraedd a rhagori ar amcanion.</li> <li>• Planhigion a bywyd gwyllt ffyniannus drwy helpu i adfer safleoedd gwarchoddedig, creu cynefin sy'n llawn bywyd gwyllt,</li> </ul>	<p>Ansawdd Aer, Bioamrywiaeth, Ffactorau Hinsoddol, Treftadaeth ddiwylliannol, yr Economi, Cyflyrau'r ddaear (pridd a daeareg), seilwaith a thrafnidiaeth, Defnydd tir a Thirwedd, Poblogaeth ac</p>

Enw'r ddogfen	Disgrifiad	Perthynas â Strategaeth Rheoli Dŵr Dyffryn Hafren (SVWMS)	Cysylltiadau â phynciau Arfarnu Cynaliadwyedd
	<ul style="list-style-type: none"> <li>Lleihad mewn niwed o beryglon amgylcheddol megis llifogydd a sychder</li> <li>Defnyddio adnoddau o natur yn fwy cynaliadwy ac effeithlon</li> </ul> <p>Gwell harddwch, treftadaeth ac ymgysylltiad â'r amgylchedd naturiol</p> <p>Mae hefyd yn amlinellu y bydd pwysau ar yr amgylchedd yn cael ei reoli drwy wneud yr hyn a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Lliniaru newid yn yr hinsawdd ac ymaddasu iddo</li> <li>Lleihau gwastraff</li> <li>Rheoli amlygiad i gemegau</li> <li>Gwella bioddiogelwch</li> </ul>	<p>cynyddu coetir a helpu i adfer rhywogaethau o anifeiliaid a phlanhigion sydd dan fygythiad ac yn bwysig.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Lleihau'r risg o niwed amgylcheddol o beryglon amgylcheddol drwy weithio gyda sectorau a chymunedau er mwyn lleihau'r risg o niwed, cynyddu cydnerthedd cyflenwadau dŵr i sychder a hybu cydnerthedd cartrefi, busnesau a seilwaith.</li> <li>Defnyddio adnoddau'n gynaliadwy ac yn effeithiol drwy wella rheolaeth pridd a sicrhau bod bwyd yn cael ei gynhyrchu'n gynaliadwy.</li> <li>Gwell harddwch, treftadaeth ac ymgysylltiad â'r amgylchedd naturiol drwy ddiogelu a gwella golygfeydd naturiol a threftadaeth a darparu manau gwyrdd naturiol hygyrch o ansawdd uchel.</li> <li>Lliniaru newid yn yr hinsawdd ac ymaddasu iddo drwy leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr ac ystyried graddau newid yn yr hinsawdd yn y dyfodol.</li> </ul> <p>Gwella bioddiogelwch drwy fynd i'r afael â rhywogaethau estron.</p>	<p>iechyd dynol (cymunedau), Adnoddau a gwastraff, yr Amgylchedd dŵr</p>

Enw'r ddogfen	Disgrifiad	Perthynas â Strategaeth Rheoli Dŵr Dyffryn Hafren (SVWMS)	Cysylltiadau â phynciau Arfarnu Cynaliadwyedd
		<p>Dylai SVWMS gefnogi'r polisïau a amlinellir yn y cynllun hefyd, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Defnyddio a rheoli tir yn gynaliadwy drwy ymgorffori egwyddor cynnydd net amgylcheddol, gwella dulliau rheoli tir, gwella iechyd pridd a gwarchod ac adfer mawndiroedd, cynyddu manteision coetir gymaint â phosibl, lleihau'r risg sy'n deillio o lifogydd (megis drwy ddefnyddio atebion ar sail natur ac adfer prosesau naturiol).</li> <li>• Adfer natur a gwella harddwch tirweddau drwy warchod ac adfer natur, cadw a gwella harddwch AHNEau a defnyddio dŵr yn fwy cynaliadwy.</li> <li>• Cysylltu pobl â'r amgylchedd er mwyn gwella iechyd a llesiant drwy wella mynediad i fannau gwyrdd a chreu seilwaith gwyrdd.</li> <li>• Mae cynyddu effeithlonrwydd adnoddau a lleihau llygredd a gwastraff drwy leihau'r risg o halogiad cemegol yn ein dŵr yn gwella ansawdd dyfroedd hamdden.</li> </ul>	

Enw'r ddogfen	Disgrifiad	Perthynas â Strategaeth Rheoli Dŵr Dyffryn Hafren (SVWMS)	Cysylltiadau â phynciau Arfarnu Cynaliadwyedd
		<ul style="list-style-type: none"> <li>Gwarchod a gwella ein hamgylchedd byd-eang drwy arwain drwy esiampl wrth fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a gwarchod a gwella bioamrywiaeth ryngwladol.</li> </ul>	
<b>Agenda 2030: Delivering the Global Goals</b> (Saesneg yn unig)	Papur polisi gan yr Adran dros Ddatblygu Rhyngwladol a'r Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2017. Mae'r ddogfen hon yn rhoi trosolwg ac enghreifftiau o sut mae Llywodraeth y DU yn cyfrannu at gyflawni pob un o'r Nodau. Mae hyn yn cynnwys ymrwymiad i fuddsoddi mewn dŵr glanach, ansawdd aer, tai, rheoli adnoddau'r DU yn gynaliadwy, lleihau halogiad dŵr a gwarchod a chadw natur y DU.	Dylai SVWMS integreiddio mesurau i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Nodau. Mae hyn yn cynnwys hybu iechyd a llesiant, gwella ansawdd y dŵr yn ardal dalgylch Hafren, cefnogi twf economaidd a chyflogaeth drwy leihau'r ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd, lleihau anghydraddoldeb drwy dargedu lleoliadau ymyrryd i gefnogi'r rhai sydd fwyaf agored i niwed, ac ystyried yn ofalus y defnydd o dir ac adnoddau a'r effaith y gallai'r cynllun ei chael ar y rhain.	Ansawdd Aer, Bioamrywiaeth, Ffactorau hinsoddol, Treftadaeth ddiwylliannol, yr Economi, Cyflyrau'r ddaear (pridd a daeareg), seilwaith a thrafnidiaeth, Defnydd tir a Thirwedd, Poblogaeth ac iechyd dynol (cymunedau), Adnoddau a gwastraff, yr Amgylchedd dŵr
<b>Deddf Amaethyddiaeth 2020</b>	Mae'r ddeddf hon yn ffurfio'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer disodli cynlluniau cymorth amaethyddol yn dilyn ymadawiad y DU o'r UE. Mae'n nodi sut y bydd ffermwyr a rheolwyr tir yn Lloegr yn cael eu gwobrwyo	Bydd SVWMS yn nodi ymyriadau i'w gweithredu ar draws y dirwedd, gan gynnwys ar dir amaethyddol. Dylid ystyried atebion ar sail natur yn rhan o'r cynllun er mwyn helpu i leihau	Bioamrywiaeth, Cyflyrau'r ddaear (pridd a daeareg), Defnydd tir a Thirwedd,



Enw'r ddogfen	Disgrifiad	Perthynas â Strategaeth Rheoli Dŵr Dyffryn Hafren (SVWMS)	Cysylltiadau â phynciau Arfarnu Cynaliadwyedd
	<p>gydag arian cyhoeddus yn y dyfodol am “nwyddau cyhoeddus”—megis gwell ansawdd aer a dŵr, bywyd gwyllt ffyniannus, iechyd pridd, neu fesurau i leihau llifogydd ac i fynd i'r afael ag effeithiau newid hinsawdd, o dan y cynllun Rheoli Tir er lles yr Amgylchedd.</p>	<p>effeithiau llifogydd a sychder, a darparu manteision ehangach i'r amgylchedd a'r gymdeithas. Dylai'r strategaeth archwilio hefyd sut y gellir defnyddio partneriaethau cyllido a dulliau cyllido eraill i gefnogi'r cynllun.</p>	<p>Poblogaeth ac iechyd dynol (cymunedau), yr Amgylchedd dŵr</p>
<p><b>Drought management for England</b> (Saesneg yn unig)</p>	<p>Mae'r papur polisi hwn yn nodi fframwaith i Asiantaeth yr Amgylchedd weithio gyda'r llywodraeth, cwmnïau dŵr ac eraill er mwyn rheoli adnoddau dŵr yn ystod sychder yn Lloegr. Mae'r fframwaith yn amlinellu:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Sut mae sychder yn effeithio ar wahanol rannau o Loegr mewn gwahanol ffyrdd</li> <li>• Pa sefydliadau sy'n ymwneud â rheoli sychder a sut maent yn gweithio gyda'i gilydd</li> <li>• Sut mae Asiantaeth yr Amgylchedd ac eraill yn gwneud penderfyniadau ac yn penderfynu ar gamau gweithredu priodol</li> <li>• Sut mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn monitro ac yn mesur effeithiau sychder</li> <li>• Sut mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn adrodd ar sychder ac yn cyfathrebu ag eraill</li> </ul>	<p>Dylai SVWMS gefnogi'r camau a amlinellir yn y cynllun rheoli sychder er mwyn helpu i leihau effaith sychder ar bobl, busnes a'r amgylchedd. Dylai'r cynllun gefnogi'r broses o reoli adnoddau dŵr yn gynaliadwy yn y dalgylch er mwyn helpu i leihau'r effaith ar yr amgylchedd a diogelu cyflenwadau ar gyfer y dyfodol.</p>	<p>Ffactorau hinsoddol, Poblogaeth ac iechyd dynol (cymunedau), yr Amgylchedd dŵr</p>
<p><b>e:Mission 2030</b></p>	<p>Mae cynllun e:Mission 2030 yn amlinellu'r camau y bydd Asiantaeth yr Amgylchedd yn eu cymryd i dorri ei hallyriadau carbon a chyrraedd sero net erbyn 2030. Mae elfen allweddol o'r strategaeth yn ymwneud â charbon sy'n gysylltiedig ag adeiladu amddiffynfeydd llifogydd. Bydd gan Asiantaeth yr Amgylchedd y nod o leihau allyriadau carbon sy'n gysylltiedig â</p>	<p>Dylai SVWMS geisio cyflwyno cynllun sero net sy'n dangos y posibilïadau ar gyfer dalgylchoedd eraill Asiantaeth yr Amgylchedd. Gall atebion ar sail natur o'r cynllun gefnogi'r dasg o leihau a gwrthbwysu allyriadau carbon o Gylch bywyd cyfan y cynllun.</p>	<p>Ffactorau hinsoddol, Seilwaith a thrafnidiaeth, Poblogaeth ac iechyd dynol (cymunedau),</p>

Enw'r ddogfen	Disgrifiad	Perthynas â Strategaeth Rheoli Dŵr Dyffryn Hafren (SVWMS)	Cysylltiadau â phynciau Arfarnu Cynaliadwyedd
	<p>hyn drwy fynd i'r afael â pherygl o lifogydd drwy ateb ar sail natur pan fo hynny'n bosibl. Bydd Asiantaeth yr Amgylchedd hefyd yn ceisio gwrthbwysu allyriadau carbon drwy brosiectau sy'n cyflawni manteision eang a hirbarhaol lluosog i bobl a natur drwy gyflawni cynnydd net amgylcheddol.</p>		<p>Adnoddau a gwastraff</p>
<p><b>EA2025</b> <b>Creating a Better Place</b> (Saesneg yn unig)</p>	<p>Mae Asiantaeth yr Amgylchedd wedi ymrwymo i gyrraedd sero net erbyn 2030 drwy sicrhau lleihad o 45% mewn allyriadau erbyn 2030 a gwrthbwysu'r gweddill. Cynllunio ar gyfer sero net yw un o'r blaenoriaethau yng nghynllun busnes presennol Asiantaeth yr Amgylchedd, EA2025. Y weledigaeth a fynegir yn EA2025 yw "gwarchod a gwella'r amgylchedd yn ei gyfanrwydd a chyfrannu at ddatblygu cynaliadwy".</p> <p>Mae ymateb i'r argyfwng hinsawdd a "gwarchod a gwella'r amgylchedd yn ei gyfanrwydd a chyfrannu at ddatblygu cynaliadwy" hefyd yn flaenoriaethau allweddol yng nghynllun busnes presennol Asiantaeth yr Amgylchedd, EA2025 Creating a Better Place. Mae EA2025 yn pwysleisio'r angen i weithio gydag amrywiaeth eang o randdeiliaid, gan gynnwys DEFRA a'r llywodraeth ehangach i gynghorau lleol a chymunedau er mwyn cyflawni uchelgeisiau. Nodau EA2025 yw ysgogi Asiantaeth yr Amgylchedd a phartneriaid i weithredu yn awr i adfer cynefinoedd a bioamrywiaeth, ac i gael eu</p>	<p>Dylai SVWMS gyfrannu tuag at yr holl nodau, gan ddarparu aer glanach ac iachach, gwell ansawdd dŵr mewn afonydd, llynnoedd, dŵr daear ac arfordiroedd a gwarchod a gwella natur yn well. Dylai SVWMS edrych ar sut y gellir cyfieithu'r Metrigau a'u defnyddio ar gyfer y cynllun hwn.</p>	<p>Bioamrywiaeth, Ffactorau hinsoddol, yr Economi, Poblogaeth ac iechyd dynol (cymunedau), yr Amgylchedd dŵr</p>

Enw'r ddogfen	Disgrifiad	Perthynas â Strategaeth Rheoli Dŵr Dyffryn Hafren (SVWMS)	Cysylltiadau â phynciau Arfarnu Cynaliadwyedd
	<p>harwain gan yr egwyddor o roi pobl a bywyd gwyllt yn gyntaf. Mae'r cynllun yn nodi tri nod hirdymor cenedl sydd â'r cadernid i wrthsefyll newid yn yr hinsawdd: aer, tir a dŵr iach, a thwf gwyrdd a dyfodol cynaliadwy. Mae hefyd yn amlinellu cyfres o nodau 5 mlynedd mewn cysylltiad â phob un o'r nodau hirdymor.</p>		
<p><b>Deddf yr Amgylchedd 2021</b></p>	<p>Dull newydd y DU o warchod yr amgylchedd yn sgil gadael yr UE yw Deddf yr Amgylchedd 2021. Sefydlodd y Ddeddf Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd, sydd â'r dasg o ddwyn y Llywodraeth a chyrrff cyhoeddus eraill i gyfrif, ac mae'n darparu pwerau i bennu targedau rhwymol newydd o ran ansawdd aer, dŵr, bioamrywiaeth a lleihau gwastraff. Mae'r pum egwyddor amgylcheddol a nodir yn y Ddeddf (sef integreiddio, atal, cywiro yn y ffynhonnell, y llygrwr sy'n talu a rhagofalus) yn gweithredu fel arweiniad ar gyfer datblygu'r holl bolisiau perthnasol, tuag at gyfleoedd er mwyn atal difrod amgylcheddol a gwella'r amgylchedd. Mae'r Ddeddf hon yn alluogwr allweddol ar gyfer Cynllun Amgylchedd 25 Mlynedd uchelgeisiol y DU sy'n nodi amcanion i helpu'r byd naturiol i adennill iechyd da, a'i gadw Mae'r amcanion yn cynnwys sicrhau darpariaeth o aer glân, dŵr glân a digonol, planhigion a bywyd gwyllt ffyniannus, llai o risg o niwed o beryglon amgylcheddol megis llifogydd a sychder, lliniaru ac ymaddasu i newid yn yr hinsawdd, defnyddio adnoddau o fyd natur yn fwy cynaliadwy, a</p>	<p>Dylai SVWMS gefnogi'r broses o gyflawni'r ymrwymadau a amlinellir yn y Ddeddf. Dylai SVWMS bennu targedau hirdymor ar gyfer gwella ansawdd aer, bioamrywiaeth, dŵr a lleihau gwastraff ac effeithlonrwydd adnoddau a helpu i atal dirywiad natur. Dylai gefnogi'r broses o gyflawni cynnydd net bioamrywiaeth, darparu gwelliannau amgylcheddol wrth sicrhau bod buddion yn ystyriol o sut i sicrhau'r buddion gorau bosibl i iechyd a llesiant dynol a phwy sy'n elwa fwyaf o'r buddion, gan ganolbwyntio ar wella agosrwydd at fannau gwyrdd i'r cymunedau mwyaf difreintiedig.</p>	<p>Ansawdd Aer, Bioamrywiaeth, Ffactorau Hinsoddol, Treftadaeth ddiwylliannol, Cyflyrau'r ddaear (pridd a daeareg), Poblogaeth ac iechyd dynol (cymunedau), Adnoddau a gwastraff, yr Amgylchedd dŵr</p>

Enw'r ddogfen	Disgrifiad	Perthynas â Strategaeth Rheoli Dŵr Dyffryn Hafren (SVWMS)	Cysylltiadau â phynciau Arfarnu Cynaliadwyedd
	<p>gwella harddwch, treftadaeth ac ymgysylltiad â'r amgylchedd naturiol. Yn dilyn hynny, mae meysydd polisi allweddol yn dod i'r amlwg ynghylch:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Defnyddio a rheoli tir yn gynaliadwy— ymgorffori egwyddor cynnydd net amgylcheddol a dulliau cyfalaf naturiol o ddatblygu, gan gynnwys gweithio gyda phrosesau naturiol a rheoli llifogydd naturiol.</li> <li>• Adfer natur a gwella harddwch tirweddau.</li> </ul> <p>Cysylltu pobl â'r amgylchedd er mwyn gwella iechyd a llesiant.</p> <p>Mae Deddf yr Amgylchedd a ddeddfwyd yn 2021 hefyd yn sefydlu fframwaith cyfreithiol ar gyfer llywodraethu amgylcheddol a phennu targedau, cynlluniau a pholisïau hirdymor a chyfreithiol rwydol ar amrywiaeth eang o faterion gan gynnwys ansawdd aer, bioamrywiaeth, dŵr, effeithlonrwydd adnoddau a lleihau gwastraff.</p>		
<p><b>Environmenta I Improvement Plan 2023</b> (Saesneg yn unig)</p>	<p>Mae'r ddogfen hon yw'r adolygiad cyntaf o'r Cynllun Amgylchedd 25 Mlynedd. Mae'n atgyfnerthu bwriad y Cynllun Amgylchedd 25 Mlynedd: lle mae'r Cynllun Amgylchedd 25 Mlynedd yn nodi'r fframwaith a'r weledigaeth, mae'r ddogfen hon yn nodi'r cynllun i gyflawni. Nod cyffredinol y cynllun yw bywyd gwyllt ffyniannus. Cyflawnir hyn drwy wella ansawdd amgylcheddol, gwella'r defnydd o adnoddau,</p>	<p>Dylai SVWMS sicrhau bod y cyfraniad tuag at nodau'r Cynllun Amgylchedd yn cael ei gynyddu gymaint â phosibl. Mae hyn yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwella ansawdd amgylcheddol drwy helpu i leihau llygredd maetholion, adfer afonydd a chreu coetiroedd newydd.</li> </ul>	<p>Bioamrywiaeth, Ffactorau hinsoddol, Treftadaeth ddiwylliannol, yr Economi, Cyflyrau'r ddaear (pridd a daeareg), Seilwaith a</p>

Enw'r ddogfen	Disgrifiad	Perthynas â Strategaeth Rheoli Dŵr Dyffryn Hafren (SVWMS)	Cysylltiadau â phynciau Arfarnu Cynaliadwyedd
	<p>gwella ein prosesau lliniaru newid yn yr hinsawdd a gwella ein bioddiogelwch.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwella'r defnydd o adnoddau drwy wella iechyd pridd a rheoli pridd yn gynaliadwy.</li> <li>• Gwella'r broses o liniaru newid yn yr hinsawdd drwy weithredu mesurau i ddiogelu'r ardaloedd sy'n dioddef llifogydd amlaf a gweithio gyda ffermydd i leihau risgiau ac effeithiau llifogydd a sychder.</li> <li>• Gwella harddwch natur drwy greu man gwyrdd hygyrch newydd a gwell.</li> </ul>	<p>thrafnidiaeth, Defnydd tir a Thirwedd, Poblogaeth ac iechyd dynol (cymunedau), Adnoddau a gwastraff, yr Amgylchedd dŵr</p>
<p><b>Rheoli risg llifogydd ac erydiad arfordirol</b> (Saesneg yn unig)</p>	<p>Mae'r datganiad polisi hwn yn nodi uchelgais hirdymor y llywodraeth o wella gallu'r genedl i wrthsefyll perygl o lifogydd ac erydiad arfordirol. Lleihau effeithiau llifogydd i gymunedau ac eiddo. Mae'r datganiad yn nodi pum maes polisi:</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Uwchraddio ac ehangu ein seilwaith a'n hamddiffynfeydd llifogydd cenedlaethol</li> <li>2. Rheoli llif dŵr yn fwy effeithiol</li> <li>3. Defnyddio pŵer natur i leihau'r perygl o lifogydd ac erydiad arfordirol a chyflawni manteision lluosog</li> <li>4. Paratoi ein cymunedau'n well</li> <li>5. Galluogi mwy o fannau cydnerthedd drwy ddull ar sail dalgyrch</li> </ol>	<p>Dylai SVWMS gefnogi'r uchelgeisiau hirdymor a amlinellir yn y datganiad polisi, gan gynnwys drwy ehangu seilwaith amddiffynfeydd llifogydd, rheoli dŵr yn well, defnyddio atebion ar sail natur i leihau'r perygl o lifogydd ac i ddarparu buddion amgylcheddol ehangach, a defnyddio dull ar sail dalgyrch i helpu i fynd i'r afael ag effeithiau newid yn yr hinsawdd. Bydd yr Arfarniad Cynaliadwyedd yn ystyried effeithiau cronrus posibl SVWMS gyda'r cynllun datblygu.</p>	<p>Yr amgylchedd dŵr</p>
<p><b>Strategaeth Genedlaethol ar gyfer</b></p>	<p>Papur polisi gan Asiantaeth yr Amgylchedd a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2020 ac a ddiweddarwyd ym mis Mehefin 2022. Mae</p>	<p>Dylai SVWMS gefnogi'r uchelgeisiau a amlinellir yn Strategaeth FCERM Cenedlaethol Lloegr. Mae hyn yn</p>	<p>Defnydd tir a Thirwedd, Poblogaeth ac</p>

Enw'r ddogfen	Disgrifiad	Perthynas â Strategaeth Rheoli Dŵr Dyffryn Hafren (SVWMS)	Cysylltiadau â phynciau Arfarnu Cynaliadwyedd
<b>Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yn Lloegr</b> (Saesneg yn unig)	<p>Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 yn rhoi dyletswydd statudol ar Asiantaeth yr Amgylchedd i ddatblygu Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol Cenedlaethol (FCERM) Lloegr. Mae'r strategaeth hon yn disgrifio'r hyn sydd angen ei wneud gan yr holl awdurdodau rheoli risg sy'n ymwneud â rheoli perygl llifogydd ac erydiad arfordirol er budd pobl a lleoedd. Mae gan y Strategaeth dair uchelgais graidd sy'n ymwneud â risg yn y dyfodol ac anghenion buddsoddi:</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Lleoedd sy'n gallu gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd: gweithio gyda phartneriaid i gryfhau'r gallu i wrthsefyll llifogydd a newid arfordirol ledled y wlad, yn awr ac yn wyneb y newid yn yr hinsawdd</li> <li>2. Mae twf a seilwaith heddiw yn gydnerth yn hinsawdd yfory: Gwneud y penderfyniadau buddsoddi a chynllunio cywir i sicrhau twf cynaliadwy a gwelliannau amgylcheddol, yn ogystal â seilwaith cydnerth.</li> <li>3. Cenedl sy'n barod i ymateb ac ymaddasu i lifogydd a newid arfordirol: Sicrhau bod pobl leol yn deall eu perygl o lifogydd a newid arfordirol, ac yn gwybod beth yw eu cyfrifoldebau a sut i weithredu.</li> </ol>	<p>cynnwys drwy gynyddu gallu'r ardal i wrthsefyll llifogydd, cefnogi'r defnydd o atebion ar sail natur, cefnogi twf cynaliadwy, cyflawni cynnydd net bioamrywiaeth a chyfrannu at gynnydd net amgylcheddol. Bydd yr Arfarniad Cynaliadwyedd yn ystyried effeithiau cronrus posibl SVWMS gyda'r cynllun datblygu.</p>	<p>iechyd dynol (cymunedau), yr Amgylchedd dŵr</p>
<b>National Planning Policy</b>	<p>Cafodd National Planning Policy Framework ei ddiwygio ar 20 Gorffennaf 2021 ac mae'n nodi polisiau cynllunio y llywodraeth ar gyfer Lloegr a</p>	<p>Dylai SVWMS gadw at y pynciau a'r canllawiau a amlinellir yn NPPF i weld ei fod yn cefnogi'r dasg o greu</p>	<p>Ansawdd Aer, Bioamrywiaeth, Ffactorau</p>

Enw'r ddogfen	Disgrifiad	Perthynas â Strategaeth Rheoli Dŵr Dyffryn Hafren (SVWMS)	Cysylltiadau â phynciau Arfarnu Cynaliadwyedd
<b>Framework (NPPF)</b> (Saesneg yn unig)	<p>sut y disgwylir i'r rhain gael eu cymhwyso. Mae'r polisïau a nodir yn y fframwaith hwn yn berthnasol i'r gwaith o baratoi cynlluniau lleol a chymdogaeth ac i benderfyniadau ar geisiadau cynllunio. Mae NPPF yn cwmpasu amrywiaeth eang o bynciau gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Adran 5: Darparu cyflenwad digonol o gartrefi</li> <li>• Adran 6: Datblygu economi gref a chystadleuol</li> <li>• Adran 7: Sicrhau dichonoldeb canol trefi</li> <li>• Adran 8: Hybu cymunedau iach a diogel</li> <li>• Adran 9: Hybu trafndiaeth gynaliadwy</li> <li>• Adran 10: Cefnogi seilwaith cyfathrebu o ansawdd uchel</li> <li>• Adran 11: Defnyddio'r tir yn effeithiol</li> <li>• Adran 12: Cyflawni lleoedd sydd wedi eu dylunio'n dda</li> <li>• Adran 13: Diogelu tir Llain Las</li> <li>• Adran 14: Ymateb i heriau newid hinsawdd, llifogydd a newid arfordirol</li> <li>• Adran 15: Cadw a gwella'r amgylchedd naturiol</li> <li>• Adran 16: Cadw a gwella'r amgylchedd hanesyddol</li> <li>• Adran 17: Hwyluso defnydd cynaliadwy o fwynau</li> </ul>	<p>datblygiad cynaliadwy. Mae hyn yn cynnwys helpu i hybu cymunedau iach a diogel drwy ddarparu mynediad i fannau agored o ansawdd uchel, gwneud defnydd effeithiol o dir er mwyn darparu buddion lluosog, cynllunio ar gyfer newid yn yr hinsawdd a'r perygl o lifogydd, diogelu a gwella tirweddau gwerthfawr, bioamrywiaeth a geoamrywiaeth a lleihau a lliniaru llygredd.</p>	<p>Hinsoddol, Treftadaeth ddiwylliannol, yr Economi, Cyflyrau'r ddaear (pridd a daeareg), seilwaith a thrafnidiaeth, Defnydd tir a Thirwedd, Poblogaeth ac iechyd dynol (cymunedau), Adnoddau a gwastraff, yr Amgylchedd dŵr</p>
<b>Deddf yr Amgylchedd Naturiol a</b>	<p>Diben y Ddeddf yw gwneud darpariaeth ynghylch cyrff sy'n ymwneud â'r amgylchedd naturiol a chymunedau gwledig. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth mewn cysylltiad â bywyd</p>	<p>Dylai SVWMS gefnogi'r dasg o gadw a gwella bioamrywiaeth a thirweddau, gan gynnwys diogelu SoDdGAau ac AHNEau.</p>	<p>Bioamrywiaeth, yr Economi, Seilwaith a thrafnidiaeth, Defnydd tir a</p>

Enw'r ddogfen	Disgrifiad	Perthynas â Strategaeth Rheoli Dŵr Dyffryn Hafren (SVWMS)	Cysylltiadau â phynciau Arfarnu Cynaliadwyedd
<b>Chymunedau Gwledig 2006</b>	gwyllt, safleoedd o ddi-ddordeb gwyddonol arbennig (SoDdGA), Parciau Cenedlaethol a hawliau tramwy.		Thirwedd, Poblogaeth ac iechyd dynol (cymunedau)
<b>Plan for Water</b> (Saesneg yn unig)	Nod y Cynllun hwn yw darparu dŵr glân a digonol—amgylchedd dŵr iach, a chyflenwad cynaliadwy o ddŵr i bobl, busnesau a natur. Mae'r cynllun yn hybu dull ar sail dalgylch o reoli'r system ddŵr, gan weithio i wella ansawdd y dŵr a chydnerthedd y cyflenwad dŵr.	Bydd SVWMS yn defnyddio dull ar sail dalgylch ar gyfer rheoli dŵr. Dylai gynnwys mesurau i wella ansawdd y dŵr a statws ecolegol a chemegol y cyrff dŵr sydd yn y dalgylch. Dylai SVWMS sicrhau bod gweithrediadau, asedau ac ymyriadau yn diogelu dŵr yn unol â modelau galw am ddŵr a hinsawdd y dyfodol.	
<b>Rheoliadau Safonau Ansawdd Aer 2010</b>	Mae Rheoliadau Safonau Ansawdd Aer 2010 yn rhoi cefnogaeth statudol i safonau ac amcanion ansawdd yr aer amgylchynol yn Lloegr. Mae'r Rheoliadau hyn yn ceisio rheoli amlygiad dynol i lygryddion yn yr awyr agored, er mwyn diogelu iechyd dynol a'r amgylchedd drwy ei gwneud yn ofynnol i grynodiadau fod o fewn gwerthoedd terfyn penodol. Mae'r Rheoliadau Safonau Ansawdd Aer hyn yn pennu 'gwerthoedd cyfyngu', 'gwerthoedd targed' ac 'amcanion hirdymor' ar gyfer crynodiadau amgylchynol o'r llygryddion	Dylai SVWMS gadw at y Safonau a'r Rheoliadau Ansawdd Aer, gan leihau llygredd aer gymaint â phosibl ar gyfer cylch bywyd llawn yr ymyriadau ac o ran eu heffeithiau anuniongyrchol hefyd.	Ansawdd Aer, Bioamrywiaeth, Poblogaeth ac iechyd dynol (cymunedau)
<b>Rheoliadau Difrod Amgylcheddo I (Atal ac Adfer) 2009</b>	Bob blwyddyn mae miloedd lawer o achosion o ddifrod i'r amgylchedd. Mae'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol gweithredu mewn ymateb i'r achosion mwyaf arwyddocaol, gan gwmpasu mathau penodol o:	Dylai SVWMS gydymffurfio â'r Rheoliadau a sicrhau nad yw'r cynllun yn cynnig mesurau a fyddai'n arwain at ddifrod i gynefinoedd neu ddŵr,	Bioamrywiaeth, Cyflyrau'r ddaear (pridd a daeareg), Poblogaeth ac iechyd dynol



Enw'r ddogfen	Disgrifiad	Perthynas â Strategaeth Rheoli Dŵr Dyffryn Hafren (SVWMS)	Cysylltiadau â phynciau Arfarnu Cynaliadwyedd
	<ul style="list-style-type: none"> <li>- niwed i rywogaethau a difrod i gynefinoedd;</li> <li>- difrod i ddŵr; neu</li> <li>- risgiau i iechyd dynol yn deillio o halogi tir.</li> </ul>	neu niwed i rywogaethau neu iechyd dynol.	(cymunedau), Adnoddau a gwastraff, yr Amgylchedd dŵr
<b>Rheoliadau Sŵn Amgylcheddo I (Lloegr) 2006</b>	Mae Rheoliadau Sŵn Amgylcheddol (Lloegr) 2006 (fel y'u diwygiwyd) yn trosi'r Gyfarwyddeb Sŵn Amgylcheddol yn gyfraith ddomestig ar gyfer Lloegr. Mae'r Rheoliadau hyn yn berthnasol i sŵn amgylcheddol, o drafnidiaeth yn bennaf. Mae'r rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i fapio sŵn rheolaidd a chynllunio gweithredoedd i fynd i'r afael â sŵn ffyrdd, rheilffyrdd a hedfan a sŵn mewn ardaloedd trefol mawr (tyrfaoedd).	Dylai SVWMS sicrhau bod y cynllun yn cadw at y Rheoliadau Sŵn Amgylcheddol.	Bioamrywiaeth, Poblogaeth ac iechyd dynol (cymunedau)
<b>The Heritage Statement 2017</b> (Saesneg yn unig)	Papur polisi gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon sy'n amlinellu gweledigaeth a strategaeth y Llywodraeth o ran Treftadaeth a'r amgylchedd hanesyddol.	Dylai SVWMS gefnogi gweledigaeth a strategaeth Llywodraethau y DU ar gyfer English Heritage drwy gefnogi sgwrs a gwella asedau treftadaeth.	Treftadaeth ddiwylliannol
<b>Rheoliadau Terfynau Uchaf Allyriadau Cenedlaethol 2018</b>	Trosir Rheoliadau Terfynau Uchaf Allyriadau Cenedlaethol y DU 2018 o Gyfarwyddeb Terfynau Uchaf Allyriadau Cenedlaethol yr UE a Phrotocol Göteborg i Gonfensiwn Comisiwn Economaidd Ewrop y Cenhedloedd Unedig ar Lygredd Aer Trawsffiniol Pellgyrhaeddol. Mae Cyfarwyddeb Terfynau Uchaf Allyriadau Cenedlaethol yr UE (2001/81/EC) yn pennu terfynau blynyddol sy'n berthnasol ar gyfer allyriadau nitrogen ocsid, amonia, cyfansoddion	Dylai SVWMS gefnogi'r dasg o gadw at Reoliadau Terfynau Uchaf Allyriadau Cenedlaethol 2018 drwy sicrhau bod ei hallyriadau o lygryddion perthnasol yn cael eu lleihau gymaint â phosibl.	Poblogaeth ac iechyd dynol (cymunedau)

Enw'r ddogfen	Disgrifiad	Perthynas â Strategaeth Rheoli Dŵr Dyffryn Hafren (SVWMS)	Cysylltiadau â phynciau Arfarnu Cynaliadwyedd
	organig anweddol nad ydynt yn fethan, a sylffwr deuocsid i bob Aelod-wladwriaeth am y blynyddoedd 2010 hyd 2019. Mae Protocol gwreiddiol Göteborg ar gyfer Confensiwn Comisiwn Economaidd Ewrop y Cenhedloedd Unedig ar Lygredd Aer Trawsffiniol Pellgyrhaeddol hefyd yn pennu terfynau blynyddol ar gyfer yr un llygryddion ar gyfer yr un cyfnod, sy'n cynnwys gwledydd y tu allan i'r UE.		
<b>Rheoliadau Atal Llygredd Nitradau 2015</b>	Mae'r Rheoliadau yn gweithredu Cyfarwyddeb Nitradau yr UE yng nghyfraith y DU ac mae ganddynt y nod o leihau'r llygredd sy'n deillio o nitradau yn yr amgylchedd dŵr. Mae'r rheoliad yn darparu ar gyfer dynodi parthau perygl nitradau ac mae'n pennu terfynau blynyddol ar y symiau o nitrogen y ceir eu cymhwyso neu eu lledaenu ar gnwd mewn amrywiaeth o leoliadau lle gallai nitrogen drwytholchi i mewn i gyrff dŵr.	Dylai SVWMS helpu i leihau'r llygredd sy'n deillio o nitradau drwy ddefnyddio ymyriadau, megis atebion ar sail natur, i helpu i hidlo a dileu llygryddion cyn iddynt fynd i mewn i gyrff dŵr.	
<b>Deddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad 1981</b>	Mae Deddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd) yn darparu ar gyfer rhwydwaith o safleoedd dynodedig cenedlaethol drwy ddarparu SoDdGAau. Mae'r Ddeddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad yn darparu gwarchodaeth i Rywogaethau a Warchodir gan Ewrop a rhywogaethau eraill, gan gynnwys adar gwylt, llygod y dŵr ac ymlusgiaid.	Dylai SVWMS osgoi effeithiau andwyol i SoDdGAau a cheisio gwarchod a gwella rhywogaethau a warchodir gan Ewrop a'r cynefinoedd sy'n eu cynnal nhw.	Bioamrywiaeth
<b>Cymru</b>			

Enw'r ddogfen	Disgrifiad	Perthynas â Strategaeth Rheoli Dŵr Dyffryn Hafren (SVWMS)	Cysylltiadau â phynciau Arfarnu Cynaliadwyedd
<b>Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Targedau Allyriadau Interim) (Cymru) (Diwygio) 2021</b>	Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i Reoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Targedau Allyriadau Interim) (Cymru) 2018, sy'n pennu'r targedau allyriadau interim o dan Ran 2 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Mae'r Ddeddf hon yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyflawni targedau o ran lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr o Gymru. Yn ogystal â chynyddu targed presennol 2050 o 80% yn is na'r waelodlin i o leiaf 100% ('sero net') (fel yr amlinellir yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (Diwygio Targedau Allyriadau 2050), mae'n cynyddu targedau interim 2030 a 2040 i 63% ac 89% yn y drefn honno.	Dylai SVWMS gyfrannu at helpu Cymru i gyflawni ei thargedau newid yn yr hinsawdd drwy archwilio'r defnydd o atebion ar sail natur a dewisiadau carbon isel eraill i helpu i leihau allyriadau ac atafaelu carbon.	Ffactorau hinsoddol
<b>Argyfwng yr Hinsawdd</b>	Ym mis Ebrill 2019, cyhoeddodd Gweinidog Amgylchedd Cymru argyfwng hinsawdd yng Nghymru. Mae'r datganiad yn rhoi neges glir na fydd Llywodraeth Cymru yn caniatáu i'r broses o ymadael â'r UE leihau her y newid yn yr hinsawdd sy'n bygwth iechyd, economi a seilwaith Cymru ac amgylchedd naturiol Cymru.	Dylai SVWMS helpu i leihau effaith newid yn yr hinsawdd ar yr amgylchedd, y gymdeithas a'r economi. Dylai archwilio hefyd y defnydd o ddewisiadau eraill a mesurau carbon isel sy'n atafaelu carbon (megis creu cynefinoedd) er mwyn helpu i leihau allyriadau carbon sy'n gysylltiedig â'r cynllun a'i gyfraniad i gyllidebau carbon.	Ffactorau hinsoddol
<b>Deddf yr Amgylchedd (Cymru) (2016)</b>	Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gwneud 'rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol' yn ofynnol ac mae'n nodi fframwaith i sicrhau bod hyn yn ystyriaeth graidd wrth wneud penderfyniadau, gan gynnwys Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol a Pholisi Adnoddau Naturiol. Mae'r Polisi ar Adnoddau Naturiol yn	Dylai SVWMS gefnogi'r broses o reoli adnoddau dŵr drwy ddull integredig er mwyn helpu i gyflawni cynaliadwyedd hirdymor. Dylai hyn gynnwys cynyddu cydnerthedd i effeithiau llifogydd a sychder yn sgil newid yn yr hinsawdd. Dylai'r cynllun	Bioamrywiaeth, Ffactorau hinsoddol, Defnydd tir a Thirwedd, Adnoddau a gwastraff

Enw'r ddogfen	Disgrifiad	Perthynas â Strategaeth Rheoli Dŵr Dyffryn Hafren (SVWMS)	Cysylltiadau â phynciau Arfarnu Cynaliadwyedd
	<p>pennu tair blaenoriaeth genedlaethol ar gyfer rheoli adnoddau naturiol Cymru:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Darparu atebion sy'n seiliedig ar natur</li> <li>• Cynyddu ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd adnoddau; a</li> <li>• Gweithredu mewn ffordd sy'n seiliedig ar le.</li> </ul> <p>Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) (2016) hefyd yn pennu targed cyfreithiol o gyflawni lleihad o 80% o leiaf mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru yn 2050.</p>	<p>helpu i wrthdroi dirywiad bioamrywiaeth a gwella ecosystemau hefyd drwy ddarparu cynnydd net bioamrywiaeth.</p>	
<b>Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016</b>	<p>Gwnaeth Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 nifer o ddiwygiadau pwysig i Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990. Mae hyn yn cynnwys mewn cysylltiad ag ymgynghori a diogelu interim, hysbysiadau stop dros dro, estyn cwmpas hysbysiadau gwaith brys, ceisiadau am dystysgrifau imiwnedd rhag rhestro a chytundebau partneriaeth treftadaeth.</p>	<p>Dylai SVWMS gadw at y gofynion a amlinellir yn y Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (2016).</p>	<p>Treftadaeth ddiwylliannol</p>
<b>Ardaloedd Cymeriad Tirwedd Cenedlaethol</b>	<p>Mae adroddiad Ardaloedd Cymeriad Tirwedd Cenedlaethol yn cydnabod cymeriad y dirwedd, a'r adnoddau naturiol a'r dreftadaeth ddiwylliannol sy'n eu diffinio nhw; gallwn ddeall yn well sut i lywio ein dyfodol. Diffinnir Ardaloedd Cymeriad Tirwedd Cenedlaethol ar raddfa tirwedd eang ledled Cymru. Mae'r proffiliau disgrifiadol ar gyfer y 48 ardal cymeriad unigol yn tynnu sylw at yr hyn sy'n gwahaniaethu rhwng un dirwedd ac un arall, gan</p>	<p>Dylai SVWMS roi sylw i'r dylanwadau ar Ardal Cymeriad Tirwedd Cenedlaethol a chydabod pwysigrwydd yr amgylchedd dŵr i'r dyffryn afon hwn.</p>	<p>Defnydd tir a Thirwedd</p>

Enw'r ddogfen	Disgrifiad	Perthynas â Strategaeth Rheoli Dŵr Dyffryn Hafren (SVWMS)	Cysylltiadau â phynciau Arfarnu Cynaliadwyedd
<p><b>Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol 2017</b></p>	<p>gyfeirio at eu nodweddion naturiol rhanbarthol, diwylliannol a chanfyddiadol arbennig.</p> <p>Mae'r Polisi Adnoddau Naturiol hwn yn pwysleisio ar wella'r ffordd y mae Cymru'n rheoli eu hadnoddau naturiol. Y tair blaenoriaeth genedlaethol ar gyfer rheoli adnoddau naturiol Cymru yw:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Darparu atebion sy'n seiliedig ar natur</li> <li>• Cynyddu ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd adnoddau a,</li> <li>• Gweithredu mewn ffordd sy'n seiliedig ar le.</li> </ul>	<p>Dylai SVWMS gadw at y polisiau a nodir er mwyn helpu i wella rheolaeth adnoddau naturiol yng Nghymru. Dylai hyn gynnwys gweithredu mewn ffordd sy'n seiliedig ar le er mwyn cyflawni atebion ar sail natur a chynyddu ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd adnoddau.</p>	<p>Bioamrywiaeth, Ffactorau hinsoddol, Seilwaith a thrafnidiaeth, Defnydd tir a Thirwedd, Adnoddau a gwastraff</p>
<p><b>Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd</b></p>	<p>Cynllun adfer mawndiroedd yng Nghymru dros gyfnod o bum mlynedd yw'r Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd. Mae gan y Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd chwe blaenoriaeth:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Erydiad mawndir</li> <li>• Draenio mawndir</li> <li>• Rheoli mawndiroedd yr ucheldir yn gynaliadwy</li> <li>• Rheoli mawndiroedd yr iseldir yn gynaliadwy</li> <li>• Adfer mawndiroedd wedi eu coedwigo</li> <li>• Adfer ein mawndiroedd carbon uchaf yn raddol</li> </ul>	<p>Dylai SVWMS gysoni cyfleoedd i warchod ac adfer mawndiroedd â'r cyfleoedd a'r blaenoriaethau hynny a nodir gan y rhaglen.</p>	<p>Defnydd tir a Thirwedd, Bioamrywiaeth, yr Amgylchedd dŵr, Ffactorau hinsoddol</p>
<p><b>Dulliau Seiliedig ar Natur o Weithredu ar y Newid yn yr</b></p>	<p>Roedd Llywodraeth Cymru yn bresennol yng Nghynhadledd Partion (COP) 21 ym Mharis ym mis Rhagfyr 2015. Roedd hyn yn rhan o Gonfensiwn Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar Newid yn yr Hinsawdd. Ynghyd â</p>	<p>Dylai SVWMS gefnogi'r camau y mae Cymru wedi ymrwmo iddynt yn y memorandwm cyd-ddealltwriaeth, gan gynnwys drwy hybu'r defnydd o atebion seilwaith naturiol neu 'wyrdd'</p>	<p>Bioamrywiaeth, yr Economi, Seilwaith a thrafnidiaeth, yr Amgylchedd dŵr</p>

Enw'r ddogfen	Disgrifiad	Perthynas â Strategaeth Rheoli Dŵr Dyffryn Hafren (SVWMS)	Cysylltiadau â phynciau Arfarnu Cynaliadwyedd
<b>Hinsawdd: memorandwm cyd-ddealltwriaeth</b>	<p>Ilywodraethau is-genedlaethol eraill, cytunodd Cymru ar Ddulliau Seiliedig ar Natur o Weithredu ar y Newid yn yr Hinsawdd: memorandwm cyd-ddealltwriaeth. Mae materion o ddiddordeb i'r partïon yn cynnwys stociau a dalfeydd carbon naturiol; Coedwigoedd; Rheoli Tir yn Gynaliadwy; ymaddasu ar sail Moroedd ac Ecosystem. Mae'r memorandwm cyd-ddealltwriaeth yn amlinellu camau ac ymrwymadau penodol y bydd Cymru yn eu cymryd. Mae'r rhain yn ymwneud â:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Chysylltu cadernid ecosystemau ac ymaddasu i newid yn yr hinsawdd, a'i liniaru</li> <li>• Atebion seilwaith naturiol neu 'wyrdd'</li> <li>• Hybu buddsoddiadau</li> <li>• Cyfrifoldeb byd-eang</li> </ul>	a hybu buddsoddiad mewn prosiectau ar raddfa tirwedd.	
<b>Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd Cymru: Trosolwg Cenedlaethol</b>	<p>Mae'r Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd hwn yn amlinellu blaenoriaethau a chamau gweithredu arfaethedig CNC ledled Cymru rhwng 2023 a 2029, ar gyfer yr ardaloedd llifogydd y mae gan CNC gyfrifoldebau arweiniol drostynt. Amcan y cynllun yw lleihau'r risg o lifogydd o brif afonydd, cronfeydd dŵr a'r môr i bobl a chymunedau. Er mwyn cyflawni hyn, mae CNC wedi nodi 14 blaenoriaeth gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur drwy geisio arferion arloesol, hybu ymaddasiad a pharatoi ar gyfer newid yn y dyfodol.</li> <li>• Datblygu a chyflawni dulliau dalgylch o leihau llifogydd ac o gyfrannu at gadernid</li> </ul>	Dylai SVWMS gefnogi gweithrediad y cynllun drwy helpu i leihau'r perygl o lifogydd i gymunedau a thargedu'r blaenoriaethau a nodir gan y cynllun. Mae hyn yn cynnwys drwy ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur, creu cydnerthedd, cyflwyno dulliau dalgylch, hybu a gweithredu atebion ar sail natur a gweithredu cyfleoedd ar gyfer gwella a chyflawni buddion ehangach, megis iechyd a llesiant, bioamrywiaeth a'r amgylchedd.	Poblogaeth ac iechyd dynol (cymunedau), yr Amgylchedd dŵr, Bioamrywiaeth

Enw'r ddogfen	Disgrifiad	Perthynas â Strategaeth Rheoli Dŵr Dyffryn Hafren (SVWMS)	Cysylltiadau â phynciau Arfarnu Cynaliadwyedd
	<p>ecosystemau, gan weithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid pan fo hynny'n bosibl ac yn briodol.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwella cadernid cymunedol o ran risgiau llifogydd cyfredol ac yn y dyfodol. Gweithio gyda phartneriaid i gefnogi cymunedau i fod yn fwy ymwybodol o'u perygl llifogydd eu hunain ac i gymryd camau i'w lliniaru nhw.</li> <li>• Ceisio a manteisio ar gyfleoedd i wella iechyd a llesiant cymunedau, bioamrywiaeth a'r amgylchedd, a'r manteision ehangach y maent yn eu darparu, er mwyn cefnogi ymateb CNC i'r Argyfwng Natur.</li> <li>• Cynyddu cydnerthedd asedau rheoli'r perygl o lifogydd, er mwyn lleihau effeithiau y perygl o lifogydd cyfredol ac yn y dyfodol.</li> <li>• Hybu, cefnogi a gweithredu atebion ar sail natur pan fo hynny'n briodol er mwyn lleihau'r risg o lifogydd ac effeithiau llifogydd a chyflawni buddion ehangach i'r ecosystem.</li> <li>• Ymgymryd â'n swyddogaeth goruchwyllo strategol i ddeall pob ffynhonnell perygl o lifogydd yn genedlaethol er mwyn llywio buddsoddiadau ac optimeiddio'r ffordd yr ydym yn cynllunio gwaith, gan gynnwys gyda phartneriaid eraill.</li> </ul>		
<b>Cymru Sero Net Cyllideb Garbon 2 (2021 i 2025)</b>	Mae'r Cynllun Cymru Sero Net hwn yn amlinellu taith datgarboneiddio Cymru gyda tharged sero net newydd. Mae'r Cynllun hwn yn nodi 123 o bolisiau a chynigion, ochr yn ochr ag	Dylai SVWMS gadw at y polisiau a nodir yng Nghyllideb Carbon Cymru Sero Net. Hefyd, dylai SVWMS ystyried Asesiad Risg Annibynnol	Bioamrywiaeth, Ffactorau hinsoddol, yr Economi, Seilwaith

Enw'r ddogfen	Disgrifiad	Perthynas â Strategaeth Rheoli Dŵr Dyffryn Hafren (SVWMS)	Cysylltiadau â phynciau Arfarnu Cynaliadwyedd
	<p>ymrwymiaidau a gweithrediadau ledled Cymru. Nodir y polisiau'n fras o dan y categorïau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ledled y Deyrnas Unedig</li> <li>• Cynhyrchu trydan a gwres</li> <li>• Trafnidiaeth</li> <li>• Adeiladau preswyl</li> <li>• Diwydiant a busnes</li> <li>• Amaethyddiaeth</li> <li>• Defnydd tir, newid defnydd tir a Choedwigaeth</li> <li>• Rheoli gwastraff</li> <li>• Y sector cyhoeddus</li> </ul>	<p>diweddaraf y Comisiwn ar Newid yn yr Hinsawdd.</p>	<p>a thrafnidiaeth, Defnydd tir a Thirwedd, Adnoddau a gwastraff</p>
<p><b>Ein cynllun corfforaethol hyd at 2030—Byd Natur a Phobl yn Ffynnu Gyda'n Gilydd</b></p>	<p>Mae'r ddogfen hon yn amlinellu cenhadaeth, gwerthoedd ac amcanion Cyfoeth Naturiol Cymru o helpu i gyflawni'r weledigaeth o Gymru lle mae natur a phobl yn ffynnu gyda'i gilydd. Y tri amcan a amlinellir yn y cynllun yw:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Natur yn adfer</li> <li>• Y gallu i wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd</li> <li>• Lleihau llygredd gymaint â phosibl</li> </ul> <p>drwy reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Cefnogir yr amcanion hyn gan gyfres o gamau gweithredu a fydd yn cael eu gweithredu i helpu i'w cyflawni nhw a'r weledigaeth gyffredinol ar gyfer 2030.</p>	<p>Dylai SVWMS gyfrannu tuag at yr holl nodau a amlinellir yn y cynllun, gan gefnogi'r broses o adfer natur, creu cymunedau sy'n ddigon cadarn i wrthsefyll newid hinsawdd a lleihau llygredd gymaint â phosibl. Dylai SVWMS gynnwys camau gweithredu a amlinellir yn y cynllun, gan gynnwys mesurau i warchod ac adfer natur, gwerthfawrogi natur yn y broses o wneud penderfyniadau, ailgysylltu pobl a natur, cynyddu graddfa yr atebion ar sail natur, ymaddasu i risgiau ac effeithiau y newid yn yr hinsawdd, lleihau allyriadau carbon, gwneud natur a chymunedau yn ddigon cadarn i wrthsefyll y newid yn</p>	<p>Ansawdd Aer, Bioamrywiaeth, Ffactorau Hinsoddol, Cyflyrau'r ddaear (pridd a daeareg), Defnydd tir a Thirwedd, Poblogaeth ac iechyd dynol (cymunedau), Adnoddau a gwastraff, yr Amgylchedd dŵr</p>



Enw'r ddogfen	Disgrifiad	Perthynas â Strategaeth Rheoli Dŵr Dyffryn Hafren (SVWMS)	Cysylltiadau â phynciau Arfarnu Cynaliadwyedd
<p><b>Polisi Cynllunio Cymru (PCC) Rhifyn 11</b> (Saesneg yn unig)</p>	<p>Mae'n nodi polisiau cynllunio defnydd tir Llywodraeth Cymru. Prif amcan PCC yw sicrhau bod y system gynllunio'n cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy ac yn gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn unol â gofyn Deddf Gynllunio (Cymru) 2015, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a deddfwriaeth allweddol arall a deddfwriaeth allweddol arall a dyletswyddau canlyniadol megis y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol. Mae themâu PCC yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dewisiadau Strategol a Gofodol</li> <li>• Egniol a Chymdeithasol</li> <li>• Cynhyrchiol a Mentrus</li> <li>• Unigryw a Naturiol</li> </ul> <p>Mae PCC yn nodi'r angen i warchod a gwella'r amgylchedd yn fwy. Mae hyn yn cynnwys asedau a rhwydweithiau seilwaith gwyrdd, gan gynnwys drwy gynnal asesiadau seilwaith gwyrdd, darparu cynnydd net ar gyfer bioamrywiaeth, a gwarchodaeth well i safleoedd dynodedig (megis Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig).</p>	<p>yr hinsawdd a chymryd camau i leihau llygredd gymaint â phosibl.</p> <p>Dylai SVWMS gadw at y polisiau cynllunio defnydd tir a nodir yn PCC. Dylai hyn gynnwys gwarchod a gwella'r amgylchedd, cefnogi'r broses o greu amgylcheddau hygyrch ac iach a seilwaith gwyrdd, hybu gweithgarwch economaidd a helpu i ryddhau tir i'w ddatblygu.</p>	<p>Bioamrywiaeth, Ffactorau hinsoddol, Treftadaeth ddiwylliannol, yr Economi, Cyflyrau'r ddaear (pridd a daeareg), Seilwaith a thrafnidiaeth, Defnydd tir a Thirwedd, Poblogaeth ac iechyd dynol (cymunedau), Adnoddau a gwastraff, yr Amgylchedd dŵr</p>
<p><b>Polisi Cynllunio Cymru a</b></p>	<p>Diben y nodyn cyngor technegol hwn yw darparu canllawiau ar sut mae'r system gynllunio yn ystyried yr amgylchedd hanesyddol</p>	<p>Dylai SVWMS weithredu'r canllawiau arferion gorau a amlinellir yn y nodyn cyngor technegol er mwyn sicrhau</p>	<p>Treftadaeth ddiwylliannol,</p>

Enw'r ddogfen	Disgrifiad	Perthynas â Strategaeth Rheoli Dŵr Dyffryn Hafren (SVWMS)	Cysylltiadau â phynciau Arfarnu Cynaliadwyedd
<b>Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol (2017)</b>	<p>yn ystod y broses o baratoi cynlluniau datblygu ac yn gwneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio ac Adeiladau Rhestredig. Mae'r nodyn cyngor technegol hwn yn rhoi canllawiau penodol ar sut y dylid ystyried yr agweddau canlynol ar yr amgylchedd hanesyddol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Safleoedd Treftadaeth y Byd</li> <li>• Henebion cofrestredig</li> <li>• Olion archeolegol</li> <li>• Adeiladau rhestredig</li> <li>• Ardaloedd cadwraeth</li> <li>• Parciau a gerddi hanesyddol</li> <li>• Tirweddau hanesyddol</li> <li>• Asedau hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig</li> </ul>	<p>bod asedau treftadaeth yn cael eu diogelu a'u gwella, gan gynnwys asedau adeiledig, tirweddau hanesyddol ac archaeoleg claddedig.</p>	<p>Seilwaith a thrafnidiaeth</p>
<b>Ffyniant i Bawb: Cymru sy'n effro i'r hinsawdd</b>	<p>Ffyniant i Bawb: Cynllun pum mlynedd Llywodraeth Cymru i ymaddasu i'r effeithiau y gallai Cymru eu hwynebu o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd yw Cymru sy'n effro i'r hinsawdd. Nod y ddogfen yw codi ymwybyddiaeth o ymaddasu i'r hinsawdd ac mae'n cynnig gwybodaeth ac arferion gorau ar gyfer gwella'r gallu i wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd.</p>	<p>Dylai SVWMS ymgorffori'r gallu i wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd.</p>	<p>Hinsawdd, Poblogaeth ac lechyd dynol (cymunedau)</p>
<b>Nodyn cyngor technegol (TAN) 15: Datblygu a pherygl llifogydd</b>	<p>Mae'r nodyn cyngor technegol hwn yn darparu canllawiau technegol sy'n ategu'r polisi a nodir yn Polisi Cynllunio Cymru mewn cysylltiad â datblygu a llifogydd. Mae'n rhoi cyngor ynghylch datblygu a'r perygl o lifogydd fel y maent yn ymwneud ag egwyddorion cynaliadwyedd, gan ddarparu fframwaith ar gyfer asesu'r perygl sy'n</p>	<p>Dylai SVWMS helpu i leihau effeithiau llifogydd ar gymunedau, seilwaith a datblygiadau sydd mewn perygl yn y dalgyll. Dylai gynnwys mesurau i gynyddu'r tir sydd ar gael sy'n addas i'w ddatblygu hefyd, yn unol â'r meini</p>	<p>Seilwaith a thrafnidiaeth, yr Amgylchedd dŵr</p>

Enw'r ddogfen	Disgrifiad	Perthynas â Strategaeth Rheoli Dŵr Dyffryn Hafren (SVWMS)	Cysylltiadau â phynciau Arfarnu Cynaliadwyedd
	deillio o lifogydd afonol ac arfordirol, ac o ddŵr ffo ychwanegol sy'n deillio o ddatblygiadau mewn unrhyw leoliad.	prawf a'r canllawiau a amlinellir yn y nodyn cyngor.	
<b>Nodyn cyngor technegol (TAN) 16: chwaraeon, hamdden a mannau agored</b>	Mae'r nodyn cyngor technegol hwn yn darparu canllawiau technegol i ategu polisi a nodir yn PCC. Mae'n cynghori ar swyddogaeth y system gynllunio wrth wneud darpariaeth ar gyfer cyfleusterau chwaraeon a hamdden a mannau agored anffurfiol, yn ogystal â diogelu cyfleusterau presennol a mannau agored mewn ardaloedd trefol a gwledig yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys ystyried nodweddion dŵr mewndirol, megis afonydd, camlesi, cronfeydd dŵr a llynnoedd.	Dylai SVWMS helpu i gynyddu'r ddarpariaeth ac ansawdd mannau agored gwyrdd naturiol hygyrch a mynediad i fannau glas, megis gwella ansawdd cyrff dŵr fel bod y rhain yn fwy addas ar gyfer gweithgareddau hamdden.	Bioamrywiaeth, Seilwaith a thrafnidiaeth, Poblogaeth ac iechyd dynol (cymunedau), yr Amgylchedd dŵr
<b>Nodyn cyngor technegol (TAN) 5: cynllunio a chadwraeth natur</b> (Saesneg yn unig)	Mae'r Nodyn Cyngor Technegol yn rhoi cyngor ar sut y dylai'r system cynllunio defnydd tir gyfrannu at warchod a gwella bioamrywiaeth a chadwraeth ddaearegol. Mae hyn yn cynnwys cyngor ar arfarnu cynaliadwyedd ac asesiad amgylcheddol strategol cynlluniau datblygu.	Dylai SVWMS weithredu'r canllawiau arferion gorau yn y nodyn cyngor technegol er mwyn helpu i sicrhau bod bioamrywiaeth yn cael ei diogelu a'i gwella. Mae hyn yn cynnwys darparu cynnydd net bioamrywiaeth a gweithredu mesurau i helpu rhywogaethau i fod yn fwy gwydn a chynefinoedd i fod yn fwy cydnerth i effeithiau newid yn yr hinsawdd.	Bioamrywiaeth, Seilwaith a thrafnidiaeth
<b>Rheoliadau Safonau Ansawdd Aer (Cymru) 2010</b>	Mae Rheoliadau Safonau Ansawdd Aer (Cymru) 2010 yn rhoi cefnogaeth statudol i safonau ac amcanion ansawdd yr aer amgylchynol yng Nghymru. Mae'r Rheoliadau hyn yn ceisio rheoli amlygiad dynol i lygryddion yn yr awyr agored, er mwyn diogelu iechyd dynol a'r amgylchedd	Dylai SVWMS gadw at Rheoliadau Safonau Ansawdd Aer (Cymru), gan leihau llygredd aer gymaint â phosibl ar gyfer cylch bywyd llawn yr ymyriadau ac o ran eu heffeithiau anuniongyrchol hefyd.	Ansawdd Aer, Bioamrywiaeth, Poblogaeth ac iechyd dynol (cymunedau)

Enw'r ddogfen	Disgrifiad	Perthynas â Strategaeth Rheoli Dŵr Dyffryn Hafren (SVWMS)	Cysylltiadau â phynciau Arfarnu Cynaliadwyedd
	<p>drwy ei gwneud yn ofynnol i grynodiadau fod o fewn gwerthoedd terfyn penodol. Mae'r Rheoliadau Safonau Ansawdd Aer hyn yn pennu 'gwerthoedd cyfyngu', 'gwerthoedd targed' ac 'amcanion hirdymor' ar gyfer crynodiadau amgylchynol o'r llygryddion</p>		
<p><b>Rheoliadau Difrod Amgylcheddo I (Atal ac Adfer) (Cymru) 2009</b></p>	<p>Bob blwyddyn mae miloedd lawer o achosion o ddifrod i'r amgylchedd. Mae'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol gweithredu mewn ymateb i'r achosion mwyaf arwyddocaol, gan gwmpasu mathau penodol o:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Niwed i rywogaethau a difrod i gynefinoedd;</li> <li>• Difrod i ddŵr; neu</li> <li>• Risgiau i iechyd dynol yn deillio o halogi tir.</li> </ul>	<p>Dylai SVWMS gydymffurfio â'r Rheoliadau a sicrhau nad yw'r cynllun yn cynnig mesurau a fyddai'n arwain at ddifrod i gynefinoedd neu ddŵr, neu niwed i rywogaethau neu iechyd dynol.</p>	<p>Bioamrywiaeth, Cyflyrau'r ddaear (pridd a daeareg), Poblogaeth ac iechyd dynol (cymunedau), Adnoddau a gwastraff, yr Amgylchedd dŵr</p>
<p><b>Y Cynllun Cenedlaethol 2040</b></p>	<p>Mae'r Cynllun Cenedlaethol 2040 yn amlinellu cynllun ugain mlynedd Llywodraeth Cymru o ran llywio twf a datblygiad Cymru yn y dyfodol. Mae'r cynllun datblygu yn cynnwys strategaeth ar gyfer mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol allweddol drwy'r system gynllunio, gan gynnwys cynnal a datblygu economi fywiog, cyflawni datgarboneiddio a'r gallu i wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd, datblygu ecosystemau cryf a gwella iechyd a llesiant ein cymunedau. Mae'r cynllun yn nodi 11 amcan ar gyfer yr 20 mlynedd nesaf. Mae'r rhain yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cymru lle mae pobl yn byw ac yn gweithio mewn mannau cysylltiedig, cynhwysol ac iach y gall pawb fod yn rhan ohonynt.</li> </ul>	<p>Dylai SVWMS gefnogi Cynllun Cenedlaethol Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys drwy gefnogi twf mewn ardaloedd twf rhanbarthol a nodwyd, megis y Trallwng a'r Drenewydd, cefnogi twf cynaliadwy, buddsoddi mewn seilwaith i liniaru effeithiau llifogydd, hybu'r defnydd o atebion ar sail natur, gwella bioamrywiaeth, cynyddu gorchudd coetir a chefnogi twf economaidd Canolbarth Cymru.</p>	<p>Bioamrywiaeth, Poblogaeth ac iechyd dynol (cymunedau)</p>

Enw'r ddogfen	Disgrifiad	Perthynas â Strategaeth Rheoli Dŵr Dyffryn Hafren (SVWMS)	Cysylltiadau â phynciau Arfarnu Cynaliadwyedd
	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cymru lle mae lleoedd yn rheoli adnoddau naturiol ac yn lleihau llygredd.</li> <li>• Cymru lle ceir ecosystemau bioamrywiol, cadarn a chysylltiedig.</li> </ul> <p>Mae'r cynllun yn cefnogi "twf y pethau cywir" h.y. datblygiad mewn canol trefi a dinasoedd sy'n cefnogi iechyd a llesiant pobl megis seilwaith gwyrdd, a "mwy o seilwaith gwyrdd" i warchod a gwella bioamrywiaeth. Dylai cynlluniau werthfawrogi a gwarchod natur, dod o hyd i ardaloedd i'w gwarchod neu eu troi'n fannau ar gyfer ecosystemau a chynnwys mwy o seilwaith gwyrdd.</p> <p>Mae'r polisiau'n cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Polisi 1—Lle bydd Cymru'n tyfu</li> <li>• Polisi 2—Siapio Twf ac Adfywio Trefol—Creu Lleoedd Strategol</li> <li>• Polisi 3—Cefnogi Twf ac Adfywio Trefol—Arweinyddiaeth y Sector Cyhoeddus</li> <li>• Polisi 8—Llifogydd</li> <li>• Polisi 9—Rhwydweithiau Ecolegol Cydnerth a Seilwaith Gwyrdd</li> <li>• Polisi 15—Coedwig Genedlaethol</li> <li>• Polisi 25—Ardaloedd Twf Rhanbarthol—Canolbarth Cymru</li> <li>• Polisi 26—Tyfu Economi Canolbarth Cymru</li> </ul>		
<b>Strategaeth Genedlaethol ar gyfer</b>	Dyma'r ail Strategaeth Genedlaethol ar Reoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru, ac mae'n disodli Strategaeth 2011.	Dylai SVWMS gefnogi Strategaeth FCERM Cenedlaethol Cymru. Mae hyn yn cynnwys drwy gynyddu gallu	Poblogaeth ac iechyd dynol

Enw'r ddogfen	Disgrifiad	Perthynas â Strategaeth Rheoli Dŵr Dyffryn Hafren (SVWMS)	Cysylltiadau â phynciau Arfarnu Cynaliadwyedd
<b>Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru</b>	<p>Fe'i paratwir o dan delerau Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010. Mae'r Strategaeth hon yn nodi sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu rheoli'r risgiau sy'n deillio o lifogydd ac erydu arfordirol ledled Cymru. Mae'n pennu amcanion a mesurau i bob partner weithio tuag atynt dros oes y ddogfen hon. Nod y strategaeth yw lleihau'r risg i bobl a chymunedau sy'n deillio o lifogydd ac erydu arfordirol. Nodir pum amcan i gyflawni hyn. Sef:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwella ein dealltwriaeth o risgiau a'n modd o'u cyfathrebu</li> <li>• Parodrwydd a datblygu cydnerthedd</li> <li>• Blaenoriaethu buddsoddiadau ar gyfer y cymunedau sy'n wynebu'r perygl mwyaf</li> <li>• Atal mwy o bobl rhag cael eu hamlygu i risg</li> <li>• Darparu ymateb effeithiol a pharhaus i ddigwyddiadau.</li> </ul>	<p>cymunedau i wrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd yn y dyfodol, hybu'r niferoedd sy'n manteisio ar atebion ar sail natur yng Nghymru ac yn eu defnyddio ac, annog cyfraniadau cyllid partneriaid er mwyn cefnogi cynlluniau cydnerthedd. Bydd yr Arfarniad Cynaliadwyedd yn ystyried effeithiau cronus posibl SVWMS gyda'r cynllun datblygu.</p>	<p>(cymunedau), yr Amgylchedd dŵr</p>
<b>Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru 2020–2021</b>	<p>Mae Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru wedi ei adnewyddu i ystyried y dystiolaeth gynyddol ynghylch graddfa y fioamrywiaeth a gollir a'r cyd-destun polisi newidiol yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys y fframwaith deddfwriaethol a'r Polisi Adnoddau Naturiol, effeithiau disgwylidig ein hymadawiad o'r UE, yr argyfwng ecolegol cynyddol a'r angen i ymateb i hynny ar frys ochr yn ochr â'r ymateb i'r argyfwng hinsawdd. Mae pum thema ar gyfer gweithredu i'r cynllun sydd wedi ei adnewyddu:</p>	<p>Dylai SVWMS gyfrannu'n gadarnhaol at bob un o amcanion y Cynllun Gweithredu Adfer Natur, gan gynnwys drwy ymgorffori bioamrywiaeth wrth wneud penderfyniadau, diogelu rhywogaethau a chynefinoedd sydd o'r pwys mwyaf, cynyddu cydnerthedd ac adfer cynefinoedd naturiol, cymryd y pwysau oddi ar gynefinoedd.</p>	<p>Bioamrywiaeth, Ffactorau hinsoddol,</p>

Enw'r ddogfen	Disgrifiad	Perthynas â Strategaeth Rheoli Dŵr Dyffryn Hafren (SVWMS)	Cysylltiadau â phynciau Arfarnu Cynaliadwyedd
	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Sicrhau cysondeb rhwng yr ymatebion i'r argyfwng hinsawdd a'r argyfwng bioamrywiaeth</li> <li>• Mynd i'r afael â'r bwch ariannu ar gyfer mesurau amaeth-amgylcheddol yn sgil gadael yr UE</li> <li>• Darparu cyfeiriad gofodol er mwyn targedu camau at ddibenion bioamrywiaeth</li> <li>• Gwella cyflwr y Rhwydwaith Safleoedd Gwarchoddedig</li> <li>• Archwilio dulliau cyllido newydd a chynaliadwy ar gyfer gweithredu bioamrywiaeth.</li> </ul>		
<b>Strategaeth Ddŵr i Gymru</b>	<p>Mae'r Strategaeth yn nodi cyfeiriad polisi hirdymor Llywodraeth Cymru mewn cysylltiad â dŵr. Y nod yw sicrhau bod gan Gymru dull mwy integredig a chynaliadwy o reoli dŵr a gwasanaethau cysylltiedig yng Nghymru. Mae'r polisiau yn y strategaeth yn ymwneud â chwe thema:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dŵr ar gyfer natur, pobl a busnesau</li> <li>• Gwella'r ffordd yr ydym yn cynllunio ac yn rheoli ein gwasanaethau dŵr</li> <li>• Darparu gwasanaeth rhagorol i gwsmeriaid</li> <li>• Diogelu a gwella ansawdd dŵr yfed</li> <li>• Systemau draenio a charthffosiaeth ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain</li> <li>• Cefnogi dulliau cyflawni</li> </ul>	Dylai SVWMS gefnogi'r dull o reoli dŵr a nodir yn y strategaeth, gan gynnwys drwy ddiogelu a gwella ansawdd dŵr, a chreu a gwella lleoedd ar gyfer hamdden a budd cymunedol.	Ffactorau hinsoddol, Poblogaeth ac iechyd dynol (cymunedau), yr Amgylchedd dŵr
<b>Deddf Llesiant</b>	Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2016 yn canolbwyntio ar wella llesiant	Dylai SVWMS gefnogi'r nodau a amlinellir yn Neddf Cenedlaethau'r	Pob pwnc

Enw'r ddogfen	Disgrifiad	Perthynas â Strategaeth Rheoli Dŵr Dyffryn Hafren (SVWMS)	Cysylltiadau â phynciau Arfarnu Cynaliadwyedd
<b>Cenedlaethau'r Dyfodol (2015)</b>	<p>cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn nodi'r saith amcan canlynol, ac yn ei gwneud yn glir bod yn rhaid i'r cyrff cyhoeddus rhestredig (gan gynnwys CNC ac awdurdodau lleol) weithio i'w cyflawni nhw:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cymru lewyrchus—cymdeithas carbon isel, cydnabod terfynau planedol, defnydd effeithlon o adnoddau</li> <li>• Cymru Gydnerth—cynnal a gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol, ecosystemau iach gweithredol sy'n cefnogi cydnerthedd a'r gallu i ymaddasu</li> <li>• Cymru sy'n Fwy Cyfartal—potensial gyflawnir ni waeth beth yw'r cefndir neu'r amgylchiadau</li> <li>• Cymru lachach—gwella llesiant corfforol a meddyliol gymaint â phosibl</li> <li>• Cymru o Gymunedau Cydlynus—cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da</li> <li>• Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu—hybu a gwarchod iaith, treftadaeth a diwylliant Cymru</li> <li>• Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang—cyfraniad cadarnhaol at lesiant byd-eang</li> </ul>	<p>Dyfodol. Dylai hyn gynnwys ymgorffori mesurau i wella'r amgylchedd naturiol, cefnogi llesiant a lleihau anghydraddoldeb, creu cymunedau diogel a diogelu treftadaeth Cymru.</p>	
<b>Strategaeth Coetiroedd i Gymru</b>	<p>Mae'r strategaeth yn amlinellu gweledigaeth a thargedau Llywodraeth Cymru ar gyfer coed, coetiroedd a choedwigoedd Cymru. Fe'i datblygwyd o amgylch pedair thema strategol:</p>	<p>Dylai SVWMS ystyried nodau'r cynllun hwn wrth archwilio ymyriadau coedwigo, gan sicrhau bod y broses o greu coetiroedd yn cael ei llywio gan</p>	<p>Bioamrywiaeth, Cyflyrau'r ddaear (pridd a daeareg), Poblogaeth ac</p>



Enw'r ddogfen	Disgrifiad	Perthynas â Strategaeth Rheoli Dŵr Dyffryn Hafren (SVWMS)	Cysylltiadau â phynciau Arfarnu Cynaliadwyedd
	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Ymateb i newid yn yr hinsawdd</li> <li>• Coetiroedd i bobl</li> <li>• Sector coedwigaeth cystadleuol ac integredig</li> <li>• Ansawdd yr amgylchedd</li> </ul> <p>Mae'r strategaeth yn cydnabod y gall coetiroedd a choed gyfrannu at y broses o reoli dŵr a phridd ar lefel lleol a dalgylch.</p>	<p>amcanion y strategaeth hon a chan yr angen i ddiogelu cynefinoedd lled-naturiol, nodweddion hanesyddol a thirweddau nodweddiadol.</p>	<p>iechyd dynol (cymunedau), Adnoddau a gwastraff, yr Amgylchedd dŵr</p>

## A.3 Cynlluniau, rhaglenni ac amcanion gwarchod rhanbarthol

Tabl A.3 Cynlluniau, rhaglenni ac amcanion gwarchod rhanbarthol

Enw'r ddogfen	Disgrifiad	Perthynas â Strategaeth Rheoli Dŵr Dyffryn Hafren (SVWMS)	Cysylltiadau â phynciau Arfarnu Cynaliadwyedd
<b>Canolbarth Cymru</b>			
<b>Cynlluniau Adnoddau Coedwigaeth</b>	Dogfen rheoli craidd a ddefnyddir ar Ystad Goetir Llywodraeth Cymru yw'r cynllun adnoddau coedwig. Mae'n nodi cynigion ar gyfer rheoli coetir yn y dyfodol yn unol â pholisïau ac arferion presennol. Lleolir Coedwig Hirnant, Coedwig Hafren, Coedwig Dyfnant a Choedwig Carno yn Nalgylch Hafren Uchaf ac mae ganddynt gynlluniau adnoddau sy'n gysylltiedig â nhw. Mae'r cynlluniau yn amlinellu amcanion ar gyfer eu rheoli a chyfleoedd megis mewn cysylltiad â chynhyrchu pren, bioamrywiaeth, creu ac adfer cynefinoedd, ansawdd dŵr, perygl o lifogydd, treftadaeth, tirwedd a hamdden.	Dylai SVWMS fod yn gyson â'r cynlluniau a'r amcanion adnoddau a nodir ar gyfer y coedwigoedd a leolir yn ardal Dalgylch Hafren Uchaf a phan fo hynny'n briodol, dylent ymgorffori'r cyfleoedd hynny a nodir yn y cynlluniau yn rhan o'r strategaeth.	Bioamrywiaeth, Cyflyrau'r ddaear (pridd a daeareg), Poblogaeth ac iechyd dynol (cymunedau), Adnoddau a gwastraff, yr Amgylchedd dŵr, Defnydd tir a Thirwedd, Ffactorau hinsoddol, Treftadaeth ddiwylliannol

Enw'r ddogfen	Disgrifiad	Perthynas â Strategaeth Rheoli Dŵr Dyffryn Hafren (SVWMS)	Cysylltiadau â phynciau Arfarnu Cynaliadwyedd
<p><b>Datganiad Ardal Canolbarth Cymru</b></p>	<p>Mae Datganiadau Ardal yn amlinellu'r heriau allweddol sy'n wynebu'r ardal benodol honno, yr hyn y gellir ei wneud i ymateb i'r heriau hynny, a sut i reoli adnoddau naturiol yn well er budd cenedlaethau'r dyfodol. Mae'r Datganiad yn ymateb i'r Polisi Adnoddau Naturiol (2017). Swyddogaeth y Datganiad Ardal yw cydgysylltu'r mesurau presennol a galluogi mentrau newydd. Mae Datganiad Ardal Canolbarth Cymru yn amlinellu pum thema, sef:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwella bioamrywiaeth—ymateb i'r argyfwng natur</li> <li>• Tir, dŵr ac aer cynaliadwy</li> <li>• Ailgysylltu pobl a lleoedd—gwella iechyd, llesiant a'r economi</li> <li>• Adnoddau coedwigoedd—rheoli adnoddau pren yn effeithiol</li> </ul> <p>Argyfwng hinsawdd—addasu a lliniaru ar draws pedair thema</p> <p>Mae pob thema yn amlinellu sut y byddai llwyddiant yn edrych ac yn amlinellu cyfleoedd pellach a phrosiectau er mwyn cyflawni'r themâu.</p>	<p>Dylai SVWMS ymgorffori mesurau i helpu i fynd i'r afael â'r heriau a nodwyd yn ardal Canolbarth Cymru a newid hinsawdd yn ehangach, gan ymgorffori mesurau a nodir yn y datganiad. Mae'r rhain yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwella bioamrywiaeth drwy greu ac adfer cynefinoedd, gwella cysylltedd cynefinoedd.</li> <li>• Cefnogi tir, dŵr ac aer cynaliadwy drwy ddatblygu dulliau ar raddfa dalgylch a thirwedd i fynd i'r afael â llygredd yn y ffynhonnell, gan weithio ar draws sectorau i gynnal, gwella ac adfer ansawdd y dŵr a chynefinoedd afonol ac archwilio cyfleoedd i reoli llifogydd yn naturiol ac atebion ar sail natur yn ehangach.</li> <li>• Ailgysylltu pobl a lleoedd drwy gefnogi hamdden awyr agored a mynediad i fannau gwyrdd naturiol</li> </ul>	<p>Ansawdd Aer, Bioamrywiaeth, yr Economi, Cyflyrau'r ddaear (pridd a daeareg), Defnydd tir a Thirwedd, Poblogaeth ac iechyd dynol (cymunedau), Adnoddau a gwastraff, yr Amgylchedd dŵr</p>

Enw'r ddogfen	Disgrifiad	Perthynas â Strategaeth Rheoli Dŵr Dyffryn Hafren (SVWMS)	Cysylltiadau â phynciau Arfarnu Cynaliadwyedd
<b>Blaenoriaethau Economaidd Strategol ar gyfer Canolbarth Cymru</b>	<p>Mae'r ddogfen hon yn nodi'r Blaenoriaethau Economaidd Strategol a fydd yn cyflawni twf ledled Rhanbarth Canolbarth Cymru rhwng 2019 a 2033. Nodwyd y blaenoriaethau ar ran Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru, a sefydlwyd i ddatblygu swyddi, twf a'r economi ehangach. Mae'r weledigaeth yn nodi "rhanbarth unigryw a llawn menter sy'n darparu twf economaidd wedi'i yrru gan arloesi, sgiliau, cysylltedd a swyddi mwy cynhyrchiol yn cynnal cymunedau ffyniannus a dwyieithog". Y prif feysydd y pwysleisir arnynt yw amaethyddiaeth a'r economi wledig, amddiffyn a diogelwch, twristiaeth, gweithgynhyrchu a'r economi sylfaenol.</p>	<p>Dylai SVWMS gefnogi amcanion y cynllun, yn benodol amcan 2 am ranbarth Canolbarth Cymru cynaliadwy a chwblhaol a defnyddio'r camau gweithredu a nodir yn y cynllun i ddeall mwy am ble y gallai'r galw am ddŵr gynyddu e.e. bydd y bwriad o gynyddu'r hydrogen a gynhyrchir yn cynyddu'r galw am ddŵr ar gyfer y broses electrolysis.</p>	<p>Yr Economi, Seilwaith a thrafnidiaeth, Poblogaeth ac iechyd dynol (cymunedau), Adnoddau a gwastraff</p>
<b>Mid-Wales and Shropshire Cross-Border Study: Final Strategy</b>	<p>Yn dilyn adolygiad o heriau yn yr ardal, mae strategaeth derfynol Canolbarth Cymru a Swydd Amwythig yn nodi nifer o amcanion ar gyfer cysylltedd yn yr ardal. Mae'r amcanion hyn yn cynnwys cynyddu'r dibynadwyedd amser teithio, cynyddu diogelwch, gwella ansawdd yr aer a lleihau effeithiau negyddol trafndiaeth ledled yr ardal drawsffiniol gymaint â phosibl. Darperir rhestr fer o ymyriadau arfaethedig gan gynnwys gwella priffyrdd, cynyddu llwybrau bysiau ac amllder, a gorsafoedd rheilffordd newydd.</p>	<p>Dylai SVWMS gefnogi strategaeth a chyflawniad yr amcanion, gan gynnwys mewn cysylltiad â chefnogi twf a ffyniant economaidd, lleihau llygredd sŵn a gwella ansawdd yr aer a gwelliannau i drafnidiaeth a chysylltedd.</p>	<p>Yr Economi, Seilwaith a thrafnidiaeth, Poblogaeth ac iechyd dynol (cymunedau)</p>

Enw'r ddogfen	Disgrifiad	Perthynas â Strategaeth Rheoli Dŵr Dyffryn Hafren (SVWMS)	Cysylltiadau â phynciau Arfarnu Cynaliadwyedd
<b>Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru: Canolbarth Cymru</b>	<p>Mae'r ddogfen hon yn rhan o Gynllun Rheoli Perygl Llifogydd Cymru ac mae'n nodi gwybodaeth fanylach mewn cysylltiad â rhanbarth Canolbarth Cymru. Mae'n nodi 13 cymuned sydd â'r perygl mwyaf o lifogydd yn rhanbarth Canolbarth Cymru, a lleolir 10 ohonynt ym Mhowys. Yn ogystal â hyn, mae hefyd yn tynnu sylw at asedau economeg, seilwaith a dynodiadau amgylcheddol sydd mewn perygl o lifogydd yn awr ac yn y dyfodol. Mae'r ddogfen yn amlinellu cynllun cyflawni ar gyfer yr ardal sy'n helpu i reoli'r perygl o lifogydd.</p>	<p>Dylai SVWMS gefnogi'r broses o gyflawni'r cynllun drwy ymgorffori mesurau i leihau'r perygl o lifogydd i'r cymunedau a'r asedau hynny y nodwyd eu bod mewn perygl, a thrwy sicrhau cysondeb â'r cynllun cyflawni ar gyfer yr ardal.</p>	<p>Yr Economi, Seilwaith a thrafnidiaeth, Poblogaeth ac iechyd dynol (cymunedau), yr Amgylchedd dŵr</p>
<b>Basn Afon Hafren</b>			
<b>Severn river basin district Flood Risk Management Plan</b> (Saesneg yn unig)	<p>Ail gylch y Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd yw cynllun i reoli risgiau llifogydd sylweddol yn yr Ardaloedd lle ceir Perygl o Lifogydd a nodwyd yn Ardal Basn Afon Hafren. Mae'n amlinellu'r prif faterion perygl llifogydd a'r newidiadau yn Ardal Basn Afon Hafren ac amcanion a mesurau i fynd i'r afael â nhw. Mae'n nodi naw ardal ledled y dalgylch lle ceir perygl o lifogydd. Ni leolir yr un o'r ardaloedd yn ardal Dalgylch Hafren Uchaf, fodd bynnag, lleolir llawer ohonynt i lawr yr afon.</p>	<p>Dylai SVWMS ystyried y prif faterion a'r newidiadau perygl o lifogydd a'r risgiau newid yn yr hinsawdd a nodir yn y cynllun hwn. Dylai SVWMS ystyried hefyd 106 o fesurau Hafren sydd wedi eu datblygu i gefnogi'r broses o gyflawni amcanion cenedlaethol.</p>	<p>Seilwaith a thrafnidiaeth, Poblogaeth ac iechyd dynol (cymunedau), yr Amgylchedd dŵr</p>

Enw'r ddogfen	Disgrifiad	Perthynas â Strategaeth Rheoli Dŵr Dyffryn Hafren (SVWMS)	Cysylltiadau â phynciau Arfarnu Cynaliadwyedd
<p><b>Severn River basin management plan: Updated 2022</b> (Saesneg yn unig)</p>	<p>Datblygir Cynlluniau Rheoli Basn Afon ar gyfer pob Ardal Basn Afon bob chwe blynedd, yn unol â chylch cynllunio rheoli'r basn afon. Mae'r cynlluniau'n nodi statws ac amcanion statws cyfredol pob corff dŵr, ynghyd â'r pwysau sy'n effeithio ar yr amgylchedd dŵr a rhaglen o fesurau a chymau gweithredu y mae eu hangen i gyflawni'r amcanion. Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yw'r awdurdodau rheoleiddio cymwys sy'n gyfrifol am ddatblygu'r Cynlluniau Rheoli Basn Afon a gweithredu Rheoliadau y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yng Nghymru a Lloegr, yn y drefn honno.</p> <p>Mae'r cynllun yn rhoi manylion am y cyflwr cyfredol, amcanion yr amgylchedd, heriau i'r amgylchedd dŵr, rhaglenni cryno o fesurau, trosolwg o'r broses o gynllunio basn afon, adroddiad cynnydd a'r cynllun diweddaraf.</p>	<p>Dylai SVWMS gynnwys mesurau i helpu i ymateb i'r heriau a amlygir yn y cynllun rheoli dŵr hwn. Mae hyn yn cynnwys gweithredu mesurau i helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a'r argyfwng bioamrywiaeth, adfer afonydd er mwyn lleihau neu gael gwared ar effeithiau addasiadau ffisegol, lleihau llygredd sy'n deillio o amaethyddiaeth, dŵr gwastraff, ardaloedd trefol a mwyngloddiau, a helpu i gynnal llifoedd. Dylid ymgorffori yr ymyriadau a amlinellir yn y rhaglen fesurau er mwyn helpu i gyflawni'r amcanion amgylcheddol ar gyfer cyrff dŵr yn y dalgylch.</p>	<p>Cyflyrau'r ddaear (pridd a daeareg), yr Amgylchedd dŵr</p>

Enw'r ddogfen	Disgrifiad	Perthynas â Strategaeth Rheoli Dŵr Dyffryn Hafren (SVWMS)	Cysylltiadau â phynciau Arfarnu Cynaliadwyedd
<b>Rhan Cymru o Gynllun Rheoli Basn Afon Hafren (2021–2027) Crynodeb</b>	<p>Mae'r ddogfen hon yn rhan o'r diweddariad diweddaraf i'r cynllun rheoli a dim ond â rhan Cymru o Ardal Basn Afon Hafren y mae'n ymwneud. Mae rheoli basn afon yn gylch cynllunio a chyflawni parhaus. Cyfrifoldeb Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yw cydgysylltu gwaith cynllunio dyfodol dyfroedd yng Nghymru, ac Asiantaeth yr Amgylchedd sy'n gyfrifol am hyn yn Lloegr. Fodd bynnag, mae CNC ac Asiantaeth yr Amgylchedd yn cydweithio yn Ardal Basn Afon Hafren. Mae'r cynllun yn pennu'r amcanion ar gyfer afonydd, llynnoedd, aberoedd a dyfroedd daear. Mae'r cynllun yn amlinellu'r camau y mae CNC yn credu sydd eu hangen i wella'r amgylchedd, y buddion y gallent eu cyflawni a phwy sydd yn y sefyllfa orau i'w darparu nhw.</p>	<p>Dylai SVWMS gynnwys mesurau i helpu i ymateb i'r heriau a'r cyfleoedd a amlygir yn y cynllun rheoli dŵr hwn. Mae hyn yn cynnwys addasiadau ffisegol, llygredd o garthffosiaeth a dŵr gwastraff, llygredd o drefi, dinasoedd a thrafnidiaeth, llygredd o ardaloedd gwledig, llygredd o fwyngloddiau, newidiadau i lif naturiol a lefelau dŵr, a rhywogaethau estron goresgynnol. Dylid ymgorffori'r mesurau a'r amcanion a amlinellir yn y cynllun er mwyn helpu i gyflawni'r amcanion amgylcheddol ar gyfer cyrff dŵr yn y dalgylch.</p>	<p>Cyflyrau'r ddaear (pridd a daeareg), yr Amgylchedd dŵr</p>

## A.4 Cynlluniau, rhaglenni ac amcanion gwarchod lleol

Tabl A.4 Cynlluniau, rhaglenni ac amcanion gwarchod lleol

Enw'r ddogfen	Disgrifiad	Perthynas â Strategaeth Rheoli Dŵr Dyffryn Hafren (SVWMS)	Cysylltiadau â phynciau Arfarnu Cynaliadwyedd
<b>Powys</b>			
<b>Strategaeth Tai Lleol Powys 2016–2020</b>	Mae'r Strategaeth Tai Lleol yn nodi'r atebion ymarferol i faterion tai sy'n effeithio ar Bowys. Mae'n cyflwyno tri nod strategol allweddol: nodi a diwallu anghenion tai dinasyddion Powys, cynyddu effaith gwariant tai gymaint â phosibl ar economi Powys a sicrhau bod tai yn cyfrannu at gyflawni cymunedau cryfach ym Mhowys.	Dylai SVWMS gefnogi nodau'r Strategaeth Tai Lleol Powys. Mae hyn yn cynnwys drwy reoli'r perygl o lifogydd ac effeithiau'r newid yn yr hinsawdd yn well, cysylltu cymunedau a galluogi mynediad i fannau agored. Bydd yr Arfarniad Cynaliadwyedd yn ystyried effeithiau cronus posibl SVWMS gyda'r cynllun datblygu.	Poblogaeth ac iechyd dynol (cymunedau)
<b>Strategaeth ar gyfer Newid Hinsawdd— Powys Positif-net 2021–2030</b>	Mae Strategaeth ar gyfer Newid Hinsawdd Powys yn gosod yr uchelgais i fod yn garbon sero net erbyn 2030 ar ôl datgan argyfwng hinsawdd ar 24 Medi 2020. Hefyd erbyn 2030, bydd Cyngor Sir Powys yn gallu gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd. Mae'r meysydd pwyslais a gynigir yn y strategaeth yn cynnwys deall yr effaith amgylcheddol ar dir y cyngor a'r cyfleoedd sydd ar gael ac annog grwpiau cymunedol i ddatblygu mannau gwyrdd a mentrau tebyg eraill gyda'r nod o gynyddu'r cyfleoedd i atafaelu carbon a lleihau'r carbon a ryddheir gymaint â phosibl, codi ymwybyddiaeth ac ymateb i her yr argyfwng hinsawdd.	Mae SVWMS yn cydnabod pwysigrwydd y gallu i wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd. Bydd y strategaeth yn ystyried gweithio ochr yn ochr â'r Cyngor a chymunedau ar ganlyniadau sy'n gadarnhaol i'r hinsawdd ac efallai y bydd yn defnyddio'r cyfle i gynyddu ymwybyddiaeth o newid yn yr hinsawdd a materion amgylcheddol yn ehangach. Trwy blannu coed a defnyddio deunyddiau lleol carbon isel, er enghraifft, bydd y strategaeth yn lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr	Ffactorau hinsoddol,



Enw'r ddogfen	Disgrifiad	Perthynas â Strategaeth Rheoli Dŵr Dyffryn Hafren (SVWMS)	Cysylltiadau â phynciau Arfarnu Cynaliadwyedd
		gymaint â phosibl ac yn atafaelu cymaint â phosibl. Bydd yr Arfarniad Cynaliadwyedd yn ystyried effeithiau cronnus posibl SVWMS gyda'r cynllun datblygu.	
<p><b>Cyngor Sir Powys— Cynllun Datblygu Lleol (2011–2026)</b></p>	<p>Mae'r cynllun hwn yn nodi polisiau'r cyngor ar gyfer datblygu a defnyddio tir tan 2026. Mae'n nodi'r weledigaeth a'r amcan sy'n ymateb i faterion ac anghenion y sir a'i chymunedau, fel y'u hysbysir gan amrywiol asesiadau, gan gynnwys Arfarniad Cynaliadwyedd ac Asesiad Amgylcheddol Strategol. Mae'r cynllun yn dosbarthu datblygiad anheddau a chartrefi fforddiadwy yn ôl hierarchaeth o aneddiadau. Mae cefnogi'r gwaith o warchod amgylchedd naturiol a hanesyddol Powys yn allweddol i'r cynllun hwn.</p> <p>Mae'r CDLI yn cyfrannu at yr ymrwymiad i lechyd Meddwl a Llesiant a Byw'n Iach drwy bolisiau manau agored, gan atal cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol pwysig rhag cael eu colli oni bai eu bod yn cael eu lliniaru o'u cymharu â chyfleusterau adloniant a hamdden sydd wedi eu cynllunio a'u lleoli'n dda a thrwy eu cefnogi. Mae hyn yn gweithio ochr yn ochr â diogelu amgylchedd naturiol y CDLI er mwynhad pawb. Gall y Cynllun hwyluso teithio llesol ar gyfer cymudo a/neu ddefnyddio gwasanaethau hefyd drwy leoli datblygiadau lle gallant fanteisio ar y rhwydwaith o lwybrau diogel ar gyfer</p>	<p>Dylai SVWMS gadw at bolisiau cynllunio lleol Powys ac ymgorffori mesurau i gefnogi'r dasg o gyflawni'r weledigaeth a'r amcanion a amlinellir yn y cynllun. Mae cynllunio ar gyfer twf mewn manau cynaliadwy, cefnogi economi Powys, gwarchod asedau naturiol, adeiledig a hanesyddol a chefnogi cymunedau iach yn themâu yn y cynllun sy'n arbennig o berthnasol i'r cynllun. Mae hyn yn cynnwys drwy reoli'r perygl o lifogydd ac effeithiau newid yn yr hinsawdd yn well, cefnogaeth ar gyfer arbed dŵr, cefnogi sectorau economaidd allweddol ac economi fywiog, gwarchod adnoddau tir, aer a dŵr Powys, cadw a gwella'r dirwedd a'r amgylchedd hanesyddol a galluogi mynediad i fannau agored. Bydd yr Arfarniad Cynaliadwyedd yn ystyried effeithiau cronnus posibl SVWMS gyda'r cynllun datblygu.</p>	<p>Ansawdd Aer, Bioamrywiaeth, Ffactorau Hinsoddol, Treftadaeth ddiwylliannol, yr Economi, Cyflyrau'r ddaear (pridd a daeareg), Seilwaith a thrafnidiaeth, Defnydd tir a Thirwedd, Poblogaeth ac iechyd dynol (cymunedau), Adnoddau a gwastraff, yr Amgylchedd dŵr</p>

Enw'r ddogfen	Disgrifiad	Perthynas â Strategaeth Rheoli Dŵr Dyffryn Hafren (SVWMS)	Cysylltiadau â phynciau Arfarnu Cynaliadwyedd
<b>Cynllun Gweithredu Adfer Natur Powys 2022–2032</b>	<p>cerddwyr a beicwyr, neu ychwanegu atynt, er mwyn lleihau'r galw am deithiau mewn ceir.</p> <p>Mae Cynllun Gweithredu Adfer Natur Powys yn cynnwys y strategaeth ar gyfer adfer natur, y Cynlluniau Gweithredu Cynefinoedd, Cynlluniau Gweithredu Rhywogaethau ac awgrymiadau ar gyfer gweithredu. Nod y Cynllun yw atal a gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth ym Mhowys ac mae'n gyson ag amcanion Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru ac mae'r camau gweithredu wedi eu nodi fel rhai sy'n bodloni blaenoriaethau lleol.</p> <p>Mae'r camau'n cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ymgysylltu, cefnogi a galluogi cymunedau i weithredu er mwyn gwarchod a gwella bioamrywiaeth</li> <li>• Cefnogi unrhyw brosiectau ar dir comin sy'n cynnwys gweithredu i gynnal a gwella bioamrywiaeth</li> <li>• Defnyddio Mapiau Rhwydwaith Ecolegol Cydnerth Cynllun Gweithredu Adfer Natur Powys i helpu i nodi ardaloedd lle gellir adfer neu greu cynefinoedd a llywio gweithredoedd rheoli tir a chynllunio polisïau</li> <li>• Defnyddio atebion ar sail natur pryd bynnag y bo hynny'n bosibl</li> <li>• Datblygu prosiectau cydweithredol er mwyn mynd i'r afael â rhywogaethau estron goresgynnol ar raddfeydd priodol</li> </ul>	<p>Byddai SVWMS yn gyson â'r strategaethau a nodir yng Nghynllun Gweithredu Adfer Natur Powys a bydd yn cefnogi i gyflawni'r nod o wrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth ledled ardal SVWMS. Bydd y strategaeth yn ymdrechu i gydweithredu a chael ei llywio gan y data gorau sydd ar gael. Bydd hefyd yn gweithredu atebion ar sail natur ac yn plannu'r coed cywir mewn mannau priodol. Bydd yr Arfarniad Cynaliadwyedd yn ystyried effeithiau cronus posibl SVWMS gyda'r cynllun datblygu.</p>	<p>Bioamrywiaeth, Ffactorau hinsoddol, Defnydd tir a Thirwedd</p>

Enw'r ddogfen	Disgrifiad	Perthynas â Strategaeth Rheoli Dŵr Dyffryn Hafren (SVWMS)	Cysylltiadau â phynciau Arfarnu Cynaliadwyedd
	<ul style="list-style-type: none"> <li>Datblygu prosiectau cydweithredol i gynyddu cadernid rhywogaethau ac ecosystemau, a chydnerthedd cynefinoedd, er mwyn mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd a cholli bioamrywiaeth</li> <li>Defnyddio a hyrwyddo pwysigrwydd y dull o blannu'r goeden gywir yn y lle cywir er mwyn arwain gwaith plannu coed a sefydlu coetiroedd dan arweiniad y gymuned</li> </ul>		
<b>Cynllun Llesiant Powys</b>	<p>Mae Cynllun Llesiant Powys yn nodi tri amcan lleol a thri cham llesiant i gyflawni'r amcanion. Bydd yr amcanion: 'Mae pobl ym Mhowys yn byw bywydau hapus, iach a diogel', 'Mae Powys yn sir o leoedd a chymunedau cynaliadwy' a 'Gwasanaeth Cyhoeddus cynyddol effeithiol i bobl Powys' yn llywio'r gwaith a wneir i gyflawni'r weledigaeth (Powys Deg, Gynaliadwy ac Iach).</p> <p>Mewn ymateb i'r argyfwng hinsawdd, mae Powys yn bwriadu datblygu camau gweithredu tuag at ddatgarboneiddio, cynyddu'r carbon a atafaelir a gwella mesurau ymaddasu i'r newid yn yr hinsawdd.</p>	Bydd SVWMS yn gyson â'r weledigaeth o Bowys sy'n "Deg, Gynaliadwy ac Iach". Bydd y strategaeth yn ceisio gwella canlyniadau iechyd i gymunedau drwy wella manau gwyrdd a glas a thrwy hwyluso teithio llesol. Bydd y strategaeth hefyd yn ymdrechu i gynyddu'r carbon a atafaelir trwy blannu coed brodorol. Bydd yr Arfarniad Cynaliadwyedd yn ystyried effeithiau cronus posibl SVWMS gyda'r cynllun datblygu.	Poblogaeth ac iechyd dynol (cymunedau)
<b>Swydd Amwythig</b>			
<b>Climate Action Plan and Project Pipeline 2020</b>	Mae Shropshire Climate Action Plan and Project Pipeline 2022 yn rhestru detholiad o gamau gweithredu i Gyngor Swydd Amwythig eu cymryd i leihau allyriadau'r Cyngor ei hun. Mae gan Gyngor Swydd Amwythig nifer o brosiectau	Dylai SVWMS ystyried y camau gweithredu y mae Cyngor Swydd Amwythig yn bwriadu eu cymryd yn Climate Action Plan a Project Pipeline. Dylai'r strategaeth	Ffactorau hinsoddol

Enw'r ddogfen	Disgrifiad	Perthynas â Strategaeth Rheoli Dŵr Dyffryn Hafren (SVWMS)	Cysylltiadau â phynciau Arfarnu Cynaliadwyedd
(Saesneg yn unig)	<p>sy'n helpu i storio carbon mewn llystyfiant a phriddoedd. Mae hyn yn cynnwys uchelgais o blannu 345,000 o goed erbyn 2050 a phrosiect Trees Outside Woodland Defra sy'n cael ei dreialu yn Swydd Amwythig.</p> <p>Yn y Cynllun Gweithredu Hinsawdd Corfforaethol, nod gweithredu i blannu 5% o'r tir sy'n eiddo i'r cyngor nad oes ganddo orchudd coed â choed brodorol yw helpu i storio carbon.</p>	<p>gydnabod bod y Cyngor wedi dewis blaenoriaethu plannu coed a dylai geisio ategu'r uchelgais hwn drwy blannu coed (pan fo hynny'n briodol). Os bwriedir plannu coed yn rhan o SVWMS, dylid ystyried coed brodorol, yn unol â'r Cynllun Gweithredu Hinsawdd Corfforaethol.</p> <p>Bydd yr Arfarniad Cynaliadwyedd yn ystyried effeithiau cronnus posibl SVWMS gyda'r cynllun datblygu.</p>	
<p><b>Draft of the Shropshire Local Plan 2016 to 2038</b> (Saesneg yn unig)</p>	<p>Mae'r cynllun hwn yn trosi amcanion NPPF, drwy ddarparu ei fframwaith ei hun ar gyfer rheoli datblygiad, gan geisio darparu patrwm twf cynaliadwy. Hefyd, mae'n mynd i'r afael â heriau strategol eraill i'r sir, megis sut i bontio i economi carbon sero net. Yr heriau allweddol i'w cydbwysu yn rhan o'r cynllun yw'r angen am dai fforddiadwy ar gyfer anghenion lleol, yr angen i ddarparu gwell cyflyrau ar gyfer twf economaidd, yr angen i warchod a gwella cyfoeth asedau naturiol a hanesyddol y sir a'r angen i ymateb i'r argyfwng hinsawdd. Cyflwynwyd y cynllun hwn i'r Ysgrifennydd Gwladol i'w archwilio yn 2021 i asesu a yw'r drafft yn bodloni NPPF a gofynion deddfwriaethol perthnasol.</p>	<p>Dylai SVWMS ymgorffori mesurau i gefnogi'r dasg o gyflawni'r weledigaeth, yr amcanion a'r cynlluniau a amlinellir yn y Cynllun Lleol drafft.</p> <p>Bydd yr Arfarniad Cynaliadwyedd yn ystyried effeithiau cronnus posibl SVWMS gyda'r cynllun datblygu.</p>	<p>Ansawdd Aer, Bioamrywiaeth, Ffactorau Hinsoddol, Treftadaeth ddiwylliannol, yr Economi, Cyflyrau'r ddaear (pridd a daeareg), Seilwaith a thrafnidiaeth, Defnydd tir a Thirwedd, Poblogaeth ac iechyd dynol (cymunedau), Adnoddau a gwastraff, yr Amgylchedd dŵr</p>

Enw'r ddogfen	Disgrifiad	Perthynas â Strategaeth Rheoli Dŵr Dyffryn Hafren (SVWMS)	Cysylltiadau â phynciau Arfarnu Cynaliadwyedd
<p><b>Rheoli Dŵr Daear: The Shropshire Groundwater Scheme</b> (Saesneg yn unig)</p>	<p>Mae Cynllun Dŵr Daear Swydd Amwythig yn cynnwys 50 o ddyfrdyllau tynnu dŵr daear sydd wedi eu cysylltu'n hydrolegol ag Afon Hafren i ganiatáu hyblygrwydd a mwy o gydnerthedd wrth gyflenwi dŵr yn ystod cyfnodau sych. Yn benodol, yr amcan yw defnyddio'r cynllun yn ystod cyfnodau sych brig, i ychwanegu at y mewnlif i'r afon o Lyn Clywedog a Llyn Efyrynwy. Rhennir y cynllun yn wyth cam, ar ôl cwblhau'r cam olaf dylid bod hyd at 300MI/d o ddŵr daear ar gael gyda 64 o ddyfrdyllau tynnu a 91 o ddyfrdyllau arsylwi.</p> <p>Ar hyn o bryd, mae camau un i bump y cynllun wedi eu rhoi ar waith, sy'n ychwanegu 160–175MI/d at y dŵr daear cyffredinol sydd ar gael. Mae'r cynllun, a'r amrywiaeth o ddyfrdyllau, ychydig i'r gogledd o Amwythig mewn siâp crwm/S, yn ymestyn oddeutu 50km o'r dwyrain i'r gorllewin.</p>	<p>Bydd SVWMS yn cydnabod y dylid defnyddio Cynllun Dŵr Daear Swydd Amwythig yn ystod cyfnodau sych brig a bydd yn ymdrechu i leihau gymaint â phosibl yr effaith bosibl ar y dŵr daear sydd ar gael yn y dyfrdyllau.</p> <p>Bydd yr Arfarniad Cynaliadwyedd yn ystyried effeithiau cronrus posibl SVWMS gyda'r cynllun datblygu.</p>	<p>Cyflyrau'r ddaear (pridd a daeareg), yr Amgylchedd dŵr</p>
<p><b>Shropshire Community and Rural Strategy</b> (Saesneg yn unig)</p>	<p>Mae'r strategaeth yn darparu fframwaith lefel uchel ac fe'i cefnogir gan gasgliad o strategaethau lleol a chynlluniau cyflawni sy'n darparu mwy o fanylion. Mae'r blaenoriaethau a nodir yn cynnwys dod o hyd i ffyrdd effeithiol a chynaliadwy o symud pobl o gwmpas, a lleihau'r effaith ar yr hinsawdd, natur a'r amgylchedd ehangach.</p>	<p>Bydd SVWMS yn cefnogi amcanion lefel uchel Shropshire Community and Rural Strategy drwy effeithiau cadarnhaol ar yr amgylchedd a chymunedau. Bydd y strategaeth hefyd yn ystyried effeithiau ar drefniadau teithio llesol presennol ac yn y dyfodol.</p> <p>Bydd yr Arfarniad Cynaliadwyedd yn ystyried effeithiau cronrus posibl SVWMS gyda'r cynllun datblygu.</p>	<p>Poblogaeth ac iechyd dynol (cymunedau)</p>

Enw'r ddogfen	Disgrifiad	Perthynas â Strategaeth Rheoli Dŵr Dyffryn Hafren (SVWMS)	Cysylltiadau â phynciau Arfarnu Cynaliadwyedd
<b>Shropshire Council Site Allocations and Management of Development (SAMDev) Plan</b> (Saesneg yn unig)	<p>Mae Site Allocations and Development Management (SAMDev) Plan yn nodi cynigion ar gyfer defnyddio tir a pholisïau i lywio datblygiadau yn y dyfodol er mwyn helpu i gyflawni Gweledigaeth ac Amcanion y Strategaeth Graidd ar gyfer y cyfnod hyd at 2026. Mae SAMDev Plan yn cefnogi ymrwymiad y Cyngor i gynaliadwyedd a bydd yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at gyflawni cymunedau cynaliadwy drwy nodi polisïau manwl ar gyfer cyflawni datblygu cynaliadwy ledled Swydd Amwythig. Mae'r Strategaeth Graidd eisoes wedi pennu swm y datblygiad yn Swydd Amwythig hyd at 2026. Mae SAMDev Plan hefyd yn nodi polisïau manwl eraill ar gyfer rheoli datblygiadau newydd ledled Swydd Amwythig er mwyn ategu'r polisïau sydd eisoes wedi eu mabwysiadu yn Strategaeth Graidd Swydd Amwythig, a darparu manylion lefel uwch ar nifer o faterion cynllunio.</p>	<p>Bydd SVWMS yn gydnaws â Shropshire Council Site Allocations and Management of Development Plan. Bydd yr Arfarniad Cynaliadwyedd yn ystyried effeithiau cronrus posibl SVWMS gyda'r cynllun datblygu.</p>	<p>Defnydd tir a Thirwedd</p>
<b>Shropshire Council Green Infrastructure Strategy</b> (Saesneg yn unig)	<p>Cydnabyddir Seilwaith Gwyrdd fwyfwy fel conglfaen datblygu cynaliadwy a chymunedau. Mae'n rhywbeth y mae'n rhaid ei gael, oherwydd y buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol niferus y mae'n eu cynnig. Mae'n hanfodol i ansawdd bywyd trigolion a busnesau, ac mae'n cyfrannu at greu lleoedd lle mae pobl yn dymuno byw a gweithio. Bydd y Strategaeth Seilwaith Gwyrdd a'r dystiolaeth sy'n ei thanategu yn llywio'r broses o gynllunio defnydd tir a pholisïau defnydd tir yn Swydd Amwythig</p>	<p>Dylai SVWMS gydnabod natur amlswyddogaethol Seilwaith Gwyrdd a'i bwysigrwydd wrth gyflawni canlyniadau cadarnhaol i bobl, bioamrywiaeth a thirwedd. Gallai SVWMS helpu i wireddu'r uchelgais o estyn y rhwydwaith seilwaith gwyrdd yn Swydd Amwythig (a thu hwnt) gan gyfrannu at addasu a lliniaru'r newid yn yr hinsawdd, gwella iechyd a</p>	<p>Defnydd tir a Thirwedd, Bioamrywiaeth, Newid yn yr hinsawdd, Poblogaeth ac iechyd dynol (cymunedau)</p>

Enw'r ddogfen	Disgrifiad	Perthynas â Strategaeth Rheoli Dŵr Dyffryn Hafren (SVWMS)	Cysylltiadau â phynciau Arfarnu Cynaliadwyedd
	drwy nodi ffyrdd y gellir diogelu a gwella asedau a rhwydweithiau Seilwaith Gwyrdd presennol, yn ogystal â nodi cyfleoedd i greu Seilwaith Gwyrdd newydd.	llesiant, gwella ansawdd y dŵr a chefnogi adferiad ecosystemau. Bydd yr Arfarniad Cynaliadwyedd yn ystyried effeithiau cronrus posibl SVWMS gyda'r cynllun datblygu.	
<b>Shropshire Council Site Allocations and Management of Development (SAMDev) Plan (2015)</b> (Saesneg yn unig)	Mae'r cynllun hwn yn nodi cynigion ar gyfer defnyddio tir a pholisïau i arwain datblygiadau yn y dyfodol, sy'n cefnogi gweledigaeth ac amcanion y Strategaeth Graidd hyd at 2026. Hefyd, mae'r cynllun yn nodi rhagor o bolisïau manwl ar gyfer rheoli datblygiadau newydd, er mwyn ategu'r polisïau presennol a fabwysiedir yn y Strategaeth Graidd. Mae'r cynllun hwn yn cefnogi ymrwymiad y cyngor i ddatblygu cynaliadwy.	Dylai SVWMS ymgorffori a chadw at bolisïau cynllunio lleol Swydd Amwythig, yn enwedig MD12—yr Amgylchedd Naturiol. Dylai SVWMS helpu i gefnogi'r cynlluniau datblygu a thwf a amlinellir yn y cynllun hefyd drwy helpu i leihau'r perygl o lifogydd a chynyddu'r tir sydd ar gael i'w ddatblygu. Bydd yr Arfarniad Cynaliadwyedd yn ystyried effeithiau cronrus posibl SVWMS gyda'r cynllun datblygu.	Yr Economi, Seilwaith a thrafnidiaeth, Poblogaeth ac iechyd dynol (cymunedau), Adnoddau a gwastraff
<b>Shropshire Cultural Strategy—Vibrant Shropshire</b> (Saesneg yn unig)	Nod Shropshire Cultural Strategy yw ysbrydoli pobl i “archwilio, creu, bod yn egnïol a mwynhau eu hunain” a fydd, yn ei dro, yn gwella bywydau ac yn meithrin yr amgylchedd. Er mwyn cyflawni hyn, cyflwynir nifer o flaenoriaethau allweddol, gan gynnwys sicrhau bod tirweddau naturiol yn cael eu gwerthfawrogi a'u gwella, a fydd yn cael eu gweithredu yn ystod y deng mlynedd nesaf. Mae'r ymrwymadau'n cynnwys annog mwy o weithredu lleol ar newid yn yr hinsawdd, cyfrannu at ddatblygu cynlluniau teithio llesol newydd, meithrin cariad at natur, gweithio gyda Natural England ar gyflwyno cynlluniau rheoli tir amgylcheddol newydd yn llwyddiannus, sicrhau	Dylai SVWMS fod â'r nod o sicrhau cysondeb â gwerthoedd Shropshire Cultural Strategy. Gallai wneud hyn drwy fesurau i sicrhau bod y dirwedd naturiol yn cael ei gwerthfawrogi a'i gwella. Bydd SVWMS yn cefnogi'r dasg o ymaddasu i'r newid yn yr hinsawdd a'i liniaru, a gallai ddarparu cyfleoedd i ymgysylltu pobl leol â'u hamgylchedd yn fwy, yn enwedig pobl iau, drwy brosiectau allgymorth ac addysgol.	Defnydd tir a Thirwedd, Poblogaeth ac iechyd dynol (cymunedau)

Enw'r ddogfen	Disgrifiad	Perthynas â Strategaeth Rheoli Dŵr Dyffryn Hafren (SVWMS)	Cysylltiadau â phynciau Arfarnu Cynaliadwyedd
	bod ysgolion a phobl ifanc yn ymgysylltu â'r amgylchedd naturiol a datblygu prosiectau cadw a gwella cynefinoedd ar gyfer safleoedd allweddol.	Bydd yr Arfarniad Cynaliadwyedd yn ystyried effeithiau cronrus posibl SVWMS gyda'r cynllun datblygu.	
<b>Strategaeth Iechyd a Llesiant Swydd Amwythig 2022–2027</b>	Mae Strategaeth Iechyd a Llesiant Swydd Amwythig yn cynnwys yr weledigaeth hirdymor, yn nodi'r meysydd blaenoriaeth a sut y dylid mynd i'r afael â nhw. Mae'r blaenoriaethau strategol a nodir yn y Strategaeth yn cynnwys gweithio cydgysylltiedig, gwella iechyd y boblogaeth, gweithio gyda chymunedau cryf a bywiog, datblygu cymunedau cryf a bywiog, a llai o anghydraddoldeb.	Bydd SVWMS yn canolbwyntio ar ganlyniadau llesiant gan gynnwys darparu cyfleoedd ar gyfer gwelliannau mewn iechyd meddwl a chorfforol a darparu manau gwyrdd a glas hygyrch fel y gall cymunedau ddod at ei gilydd a ffynnu. Bydd yr Arfarniad Cynaliadwyedd yn ystyried effeithiau cronrus posibl SVWMS gyda'r cynllun datblygu.	Defnydd tir a Thirwedd, Poblogaeth ac Iechyd dynol (cymunedau)
<b>Shropshire Local Development Framework: Adopted Core Strategy</b> (Saesneg yn unig)	Core Strategy Development Plan Document (DPD) fydd prif ddogfen Local Development Framework (LDF) Swydd Amwythig. Set o ddogfennau sy'n nodi polisiau yn ymwneud â defnyddio a datblygu tir yn Swydd Amwythig yw LDF. Mae Core Strategy yn nodi gweledigaeth, amcanion strategol y Cyngor a'r strategaeth ofodol eang i arwain datblygiad a thwf yn Swydd Amwythig yn y dyfodol yn ystod y cyfnod hyd at 2026. Hwn fydd y man cychwyn ar gyfer penderfynu ar geisiadau cynllunio a bydd yn cael ei gefnogi maes o law gan ddogfennau eraill sy'n ymwneud â dyrannu tir a pholisiau rheoli datblygiadau manylach. Bydd yn arwain dyheadau darparwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid allweddol eraill yn ogystal â Chyngor Swydd Amwythig y bydd eu cyfraniad	Dylai SVWMS fod yn gyfarwydd â'r polisiau a nodir yn LDF. Yn benodol, dylid ystyried y strategaeth ofodol wrth ddatblygu dewisiadau. Bydd yr Arfarniad Cynaliadwyedd yn ystyried effeithiau cronrus posibl SVWMS gyda'r cynllun datblygu.	Defnydd tir a Thirwedd



Enw'r ddogfen	Disgrifiad	Perthynas â Strategaeth Rheoli Dŵr Dyffryn Hafren (SVWMS)	Cysylltiadau â phynciau Arfarnu Cynaliadwyedd
	<p>yn hanfodol i weithredu'r strategaeth yn llwyddiannus. Mae Core Strategy yn ymgorffori dull arloesol o ddatblygu yn Swydd Amwythig a'i nod yw cyflawni lleoedd mwy cynaliadwy ar bob lefel ac mewn lleoliadau trefol a gwledig.</p>		
<p><b>Shropshire Local Development Framework: Adopted Core Strategy (2006–2026)</b> (Saesneg yn unig)</p>	<p>Core Strategy Development Plan Document yw prif ddogfen Local Development Framework Swydd Amwythig. Mae Core Strategy yn nodi gweledigaeth, amcanion strategol y Cyngor a'r strategaeth ofodol eang i arwain datblygiad a thwf yn Swydd Amwythig yn y dyfodol yn ystod y cyfnod hyd at 2026. Yr weledigaeth ar gyfer Swydd Amwythig a amlinellir yn Core Strategy yw "Swydd Amwythig lewyrchus"; cefnogir hyn gan dair blaenoriaeth:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Menter a thwf, gyda Threfi Marchnad cryf ac aneddiadau gwledig sydd wedi eu hailgydbwyso</li> <li>• Ymateb i newid yn yr hinsawdd a gwella ein hamgylchedd naturiol ac adeiledig</li> <li>• Pobl a chymunedau iach, diogel a hyderus</li> </ul> <p>Mae Core Strategy yn amlinellu cyfres o amcanion strategol a gefnogir gan bolisïau. Mae'r amcanion strategol yn cynnwys cefnogi'r broses o ddatblygu cymunedau cynaliadwy, cyflawni tai a chyfleoedd cyflogaeth, lliniaru ac ymaddasu i newid yn yr hinsawdd, gwarchod a gwella'r amgylchedd naturiol a hanesyddol a gwella mannau agored.</p>	<p>Dylai SVWMS ystyried yr heriau allweddol a amlygir drwy'r cynllun (yn enwedig yr heriau amgylcheddol) a chadw at bolisïau Local Development Framework Swydd Amwythig, yn benodol gyda CS17-CS20 (Polisïau Amgylcheddol). Mae hyn yn cynnwys cefnogi'r dasg o ddiogelu a gwella asedau a rhwydweithiau amgylcheddol a chefnogi'r broses o reoli dŵr yn gynaliadwy. Bydd yr Arfarniad Cynaliadwyedd yn ystyried effeithiau cronus posibl SVWMS gyda'r cynllun datblygu.</p>	<p>Bioamrywiaeth, Ffactorau hinsoddol, Treftadaeth ddiwylliannol, yr Economi, Cyflyrau'r ddaear (pridd a daeareg), Seilwaith a thrafnidiaeth, Defnydd tir a Thirwedd, Poblogaeth ac iechyd dynol (cymunedau), Adnoddau a gwastraff, yr Amgylchedd dŵr</p>

Enw'r ddogfen	Disgrifiad	Perthynas â Strategaeth Rheoli Dŵr Dyffryn Hafren (SVWMS)	Cysylltiadau â phynciau Arfarnu Cynaliadwyedd
<p><b>Shropshire Local Flood Risk Management Strategy</b> (Saesneg yn unig)</p>	<p>Mae Local Flood Risk Management Strategy yn amlinellu'r weledigaeth a'r blaenoriaethau hirdymor ar gyfer cyflawni'r budd mwyaf i bobl, eiddo ac amgylchedd Swydd Amwythig (a Swydd Stafford, gan mai strategaeth gydweithredol yw hon). Nodir camau gweithredu a chyfrifoldebau y sefydliadau sy'n gyfrifol am reoli'r perygl o lifogydd yn Swydd Amwythig. Mae'r blaenoriaethau allweddol a gyflwynir yn Rhan 2 sy'n berthnasol i SVWMS yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Bydd y cyngor yn ceisio cyflawni SDCau yn rhan o ddatblygiad newydd</li> <li>• Pan fo hynny'n briodol, bydd y cyngor yn defnyddio ei bwerau goddefol i lunio cynlluniau lliniaru llifogydd sy'n lleihau'r perygl o lifogydd i eiddo.</li> <li>• Bydd y cyngor yn ceisio gwella'r amgylchedd lleol wrth gyflawni cynlluniau lliniaru llifogydd, gweithio gyda phrosesau naturiol a chymryd dull ar sail dalgylch wrth ystyried dewisiadau addas ar gyfer lliniaru llifogydd.</li> </ul> <p>Mae'r strategaeth yn nodi ymrwymiad Cynghorau Swydd Amwythig i ddiogelu a gwella safleoedd amgylcheddol cydnabyddedig. Mae'r amcanion amgylcheddol canlynol o Local Flood Risk Management Strategy yn berthnasol i'r holl swyddogaethau rheoli perygl o lifogydd a gyflawnir gan y cyngor:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Annog mesurau rheoli tarddiad e.e. SDCau</li> </ul>	<p>Dylai SVWMS helpu i reoli a lleihau'r perygl o lifogydd yn Nalgylch Hafren Uchaf. Bydd y strategaeth yn gweithio gyda phrosesau naturiol a bydd pob ystyriaeth yn cael ei gwneud ar lefel dalgylch, yn unol â blaenoriaethau'r Strategaethau Lleol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd. Bydd SVWMS hefyd yn ystyried yr amcanion amgylcheddol gan gynnwys gwella bioamrywiaeth, creu cynefinoedd a gwella ansawdd dŵr. Bydd yr Arfarniad Cynaliadwyedd yn ystyried effeithiau cronrus posibl SVWMS gyda'r cynllun datblygu.</p>	<p>Yr Amgylchedd dŵr, Bioamrywiaeth, Poblogaeth ac Iechyd dynol (cymunedau)</p>

Enw'r ddogfen	Disgrifiad	Perthynas â Strategaeth Rheoli Dŵr Dyffryn Hafren (SVWMS)	Cysylltiadau â phynciau Arfarnu Cynaliadwyedd
	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwella bioamrywiaeth a chreu cynefinoedd yn rhan o weithgareddau rheoli'r perygl o lifogydd</li> <li>• Annog cyfleoedd i greu coetiroedd newydd wedi eu targedu er mwyn helpu i liniaru materion llif dŵr</li> <li>• Ystyried cyfleoedd i wella/gwarchod bioamrywiaeth a chreu cynefinoedd</li> <li>• Cynorthwyo Asiantaeth yr Amgylchedd i gyflawni targedau y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr</li> <li>• Ceisio cyfleoedd i hybu gwelliannau hydroforffolegol i gyrsiau dŵr</li> </ul> <p>Blaenoriaethu atebion i reoli llifogydd o ffynonellau lleol sy'n gweithio gyda phrosesau naturiol, annog gwelliannau i fioamrywiaeth a lleihau gymaint â phosibl effeithiau andwyol ar yr amgylchedd lleol</p> <p>Mae'r cyngor yn addo blaenoriaethu gweithgareddau rheoli'r perygl o lifogydd yn amodol ar amrywiaeth o amodau sy'n cynnwys y rhai a fyddai'n cyflawni manteision lluosog, gan gynnwys manteision amgylcheddol ehangach.</p>		
<b>Shropshire's Economic Growth Strategy 2022–2027</b>	<p>Crëwyd y strategaeth hon mewn ymateb i'r pandemig, er mwyn helpu i lywio adferiad y rhanbarth. Tri nod y strategaeth yw 1) darparu'r offer a'r cymorth cywir i gefnogi busnesau (cefnogi busnesau lleol), 2) hyrwyddo buddsoddiad mewn seilwaith ehangach sy'n</p>	<p>Dylai SVWMS gefnogi'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol a amlinellir yn y strategaeth, sy'n cynnwys y rhai sy'n ymwneud â hyrwyddo datblygu cynaliadwy a chadernid, cefnogi cynnydd mewn</p>	<p>Yr Economi, Seilwaith a thrafnidiaeth, Poblogaeth ac iechyd dynol (cymunedau),</p>

Enw'r ddogfen	Disgrifiad	Perthynas â Strategaeth Rheoli Dŵr Dyffryn Hafren (SVWMS)	Cysylltiadau â phynciau Arfarnu Cynaliadwyedd
(Saesneg yn unig)	tanategu buddsoddiadau busnes (lleoliadau strategol) a 3) darparu tai, cysylltedd, rhwydweithiau a dilyniant gweithle priodol fel bod y gweithlu'n cael ei gefnogi'n briodol i gyflawni twf economaidd (cyflogaeth a sgiliau). Mae gan y strategaeth Gynllun Gweithredu cysylltiedig sy'n nodi trefniadau llywodraethu, uchelgeisiau allweddol ar gyfer prosiectau cyflawni a Dangosyddion Perfformiad Allweddol, a fydd yn cael eu diweddar'u'n flynyddol.	cynhyrchiant, creu swyddi ac adeiladu cartrefi. Bydd yr Arfarniad Cynaliadwyedd yn ystyried effeithiau cronnus posibl SVWMS gyda'r cynllun datblygu.	Adnoddau a gwastraff
<b>The Shropshire Plan 2022 to 2025— Strategic Plan</b> (Saesneg yn unig)	<p>Mae Shropshire Plan yn nodi'r cynllun ar gyfer 2022 i 2025 yng nghyd-destun cynlluniau a strategaethau tymor hwy y Cyngor. Mae'r Cynllun yn cyflwyno'r blaenoriaethau canlynol:</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Pobl iach—Amcanion strategol: mynd i'r afael ag anghydraddoldeb, ymyrryd yn gynnar, partneriaethau a hunangyfrifoldeb</li> <li>2. Economi iach—Amcanion strategol: sgiliau a chyflogaeth, cyrchfan diogel, cryf a bywiog, cysylltedd a seilwaith a thai</li> <li>3. Amgylchedd iach—Amcanion strategol: strategaeth newid yn yr hinsawdd, cymunedau diogel a'r amgylchedd naturiol</li> <li>4. Sefydliad iach—Amcanion strategol: y gweithlu gorau, amsugno, addasu, rhagweld, cyfathrebu'n dda, cysoni ein hadnoddau, cynghorwyr cryf</li> </ol> <p>Mae'r Cynllun yn galw i gof weledigaeth Cyngor Swydd Amwythig: Shropshire living the best life, a'r diben: gweithio gyda phartneriaid a</p>	<p>Dylai SVWMS gadw at bolisiau cynllunio lleol Swydd Amwythig ac ymgorffori mesurau i gefnogi'r dasg o gyflawni'r weledigaeth, yr amcanion a'r blaenoriaethau a amlinellir yn y cynllun.</p> <p>Mae cyrchfan cryf a bywiog, cysylltedd, strategaeth newid yn yr hinsawdd a'r amgylchedd naturiol yn amcanion strategol yn y cynllun sy'n arbennig o berthnasol iddo.</p> <p>Mae hyn yn cynnwys creu cymunedau cynaliadwy, cyflawni cynllun coed Climate Action, datblygu cyfleoedd ar gyfer teithio llesol a gwella adferiad natur.</p> <p>Bydd yr Arfarniad Cynaliadwyedd yn ystyried effeithiau cronnus posibl SVWMS gyda'r cynllun datblygu.</p>	<p>Ansawdd Aer, Bioamrywiaeth, Ffactorau Hinsoddol, Treftadaeth ddiwylliannol, yr Economi, Cyflyrau'r ddaear (pridd a daeareg), Seilwaith a thrafnidiaeth, Defnydd tir a Thirwedd, Poblogaeth ac iechyd dynol (cymunedau), Adnoddau a gwastraff, yr Amgylchedd dŵr</p>

Enw'r ddogfen	Disgrifiad	Perthynas â Strategaeth Rheoli Dŵr Dyffryn Hafren (SVWMS)	Cysylltiadau â phynciau Arfarnu Cynaliadwyedd
	<p>chymunedau i gyflawni'r weledigaeth a'r blaenoriaethau ar gyfer Swydd Amwythig. Nodir camau gweithredu perthnasol i gefnogi'r amcanion strategol isod:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gweithio gyda chymunedau i gynyddu iechyd a llesiant a lleihau unigedd cymdeithasol drwy leoliadau, safleoedd a gweithgareddau corfforol, diwylliannol ac ysbrydoledig lleol.</li> <li>• Datblygu cynllun strategol er mwyn cyflawni trafndiaeth gyhoeddus yn Swydd Amwythig erbyn mis Ebrill 2023, sy'n adlewyrchu dymuniadau ac anghenion sir wledig yn sgil y pandemig, gan annog newidiadau i'r ffordd y mae pobl yn teithio ac yn defnyddio dewisiadau trafndiaeth cynaliadwy.</li> <li>• Creu cymunedau cynaliadwy a ffyniannus sy'n tyfu, gan roi anghenion pobl wrth wraidd tai, seilwaith, cyflogaeth a darparu gwasanaethau lleol.</li> <li>• Cyflawni cynllun coed Climate Action ac archwilio cyfleoedd i sicrhau cyllid allanol tuag at darged plannu coed corfforaethol 2030.</li> <li>• Datblygu mwy o gyfleoedd ar gyfer teithio llesol yn Swydd Amwythig a dewisiadau trafndiaeth gyhoeddus, sy'n creu ystod o fuddion cysylltiedig gan gynnwys gwell ansawdd aer a gwell iechyd a llesiant.</li> <li>• Cefnogi'r cynnydd mewn trafndiaeth carbon isel yn y sir.</li> </ul>		

Enw'r ddogfen	Disgrifiad	Perthynas â Strategaeth Rheoli Dŵr Dyffryn Hafren (SVWMS)	Cysylltiadau â phynciau Arfarnu Cynaliadwyedd
	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gweithio gyda phartneriaid a chymunedau i wella'r amgylchedd naturiol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.</li> <li>• Defnyddio ein tir a'n hystad i leihau ôl troed carbon y Cyngor a'r sir.</li> <li>• Gweithio gyda chymunedau Swydd Amwythig i gynnal amgylchedd glân a deniadol.</li> <li>• Gweithio gyda DEFRA a phartneriaid allanol eraill i gyflawni prosiectau Trees Outside Woodlands tan fis Medi 2023.</li> <li>• Gwella cadwraeth ac adferiad natur, gan gynnwys mewn parciau gwledig a safleoedd treftadaeth a reolir gan y Cyngor</li> <li>• Cyflawni a hyrwyddo cynnydd net bioamrywiaeth gan sicrhau bod twf arfaethedig yn gwella'r amgylchedd ac yn cyfrannu at ein rhwydweithiau ecolegol ac yn gwarchod ein tirweddau gwerthfawr.</li> <li>• Gwella prosesau cadwraeth natur, rheoli cynefinoedd ac adfer natur ar draws fannau gwyrdd a reolir gan y Cyngor a phartneriaid</li> </ul>		
<b>Towards Net-Zero Carbon: Corporate Climate Strategy</b> (Saesneg yn unig)	Mae Corporate Climate Strategy Swydd Amwythig yn amlinellu sut mae Cyngor Swydd Amwythig yn bwriadu lleihau'r ôl troed carbon corfforaethol a hybu mesurau addasu. Ar ôl datgan Argyfwng Hinsawdd ym mis Mai 2019, pennodd y Cyngor yr amcan o darged perfformiad carbon corfforaethol sero net erbyn 2030 yn y Fframwaith Strategaeth. Bydd Cyngor	Dylai SVWMS ystyried hybu mesurau ymaddasu i'r newid yn yr hinsawdd ac ymdrechu i sicrhau carbon sero net/isel mewn adeiladu a gweithrediadau, fel y nodir yn Corporate Climate Strategy Swydd Amwythig. Yn yr un modd, dylai SVWMS ymdrechu hefyd i gynyddu'r	Ffactorau hinsoddol,

Enw'r ddogfen	Disgrifiad	Perthynas â Strategaeth Rheoli Dŵr Dyffryn Hafren (SVWMS)	Cysylltiadau â phynciau Arfarnu Cynaliadwyedd
	Swydd Amwythig yn canolbwyntio ymdrechion ar fesurau megis atafaelu nwyon tŷ gwydr a gwella'r gallu i wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd ac i ymaddasu iddo.	nwyon tŷ gwydr a atafaelir pan fo hynny'n bosibl.	
<b>Shropshire Hills AONB Nature Recovery Plan</b> (Saesneg yn unig)	<p>Mae Shropshire Hills AONB Nature Recovery Plan yn nodi gweledigaeth o gynefinoedd mwy cydnerth, afonydd glanach a mwy naturiol, nifer mwy o goed a llystyfiant, a bod gan bobl fwy o ymdeimlad o gysylltiad â natur. Amlinellir y blaenoriaethau ar gyfer adfer natur ym Mryniau Swydd Amwythig isod:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Y ffordd orau o reoli cynefinoedd presennol o ansawdd uchel fel 'ardaloedd craidd' rhwydwaith adfer natur</li> <li>• Gwella glandiroedd ac ardaloedd clustogi ar gyfer rhostiroedd a bryniau glaswelltir garw</li> <li>• Ailgynefino ardaloedd blaenddwyr y dalgyloch</li> <li>• Adfywio ac ehangu coetiroedd lled-naturiol yr ucheldir</li> <li>• Creu coetiroedd er mwyn gwella rhwydweithiau cynefinoedd</li> <li>• Gwella cynefinoedd coridorau afonydd a nentydd</li> <li>• Rheoli ac ail-greu dolydd blodau gwyllt a glaswelltiroedd sy'n llawn rhywogaethau</li> <li>• Rheoli tir fferm â dull adfywio mwy cynaliadwy</li> <li>• Rheoli rhywogaethau estron goresgynnol</li> <li>• Cysylltu pobl â natur</li> </ul>	Dylai SVWMS fod yn gyson â gweledigaeth Shropshire Hills AONB a gall gefnogi'r dasg o gyflawni'r blaenoriaethau adfer natur a amlinellir. Dylai'r strategaeth ymdrechu i ailgynefino ardaloedd torlannol a chynyddu cysylltedd rhwng cynefinoedd, yn ogystal â chysylltu pobl â natur. Bydd yr Arfarniad Cynaliadwyedd yn ystyried effeithiau cronrus posibl SVWMS gyda'r cynllun datblygu.	Bioamrywiaeth, Defnydd tir a Thirwedd, Poblogaeth ac Iechyd dynol (cymunedau)

Enw'r ddogfen	Disgrifiad	Perthynas â Strategaeth Rheoli Dŵr Dyffryn Hafren (SVWMS)	Cysylltiadau â phynciau Arfarnu Cynaliadwyedd
<b>Gwynedd</b>			
<b>Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011–2026</b>	Mae'r cynllun datblygu ar y cyd hwn yn nodi'r strategaeth a'r nodau ar gyfer datblygu a defnyddio tir ar gyfer y ddau gyngor sydd â pherthynas trawsffiniol cryf o ran swyddogaeth, economi, seilwaith a pholisi. Bydd y cynllun yn cael ei ddefnyddio i benderfynu pa ddatblygiad fydd yn cael caniatâd yn y dyfodol gan y cynghorau. Materion allweddol ar y cyd oedd: swyddi, Cynllun Gofodol Cymru (2008), Rhaglen Ynys Ynni Môn, rhwydweithiau ffyrdd a rheilffyrdd, ardaloedd marchnad tai, siopa, seilwaith, tirwedd.	Lleolir rhan fechan o Ddalgyrch Hafren Uchaf o fewn ffiniau Cyngor Gwynedd. Dylai SVWMS weld bod nodau'r cynllun ar y cyd hwn yn cael eu hymgorffori, pan fo hynny'n briodol ac yn berthnasol.	Ansawdd Aer, Bioamrywiaeth, Ffactorau Hinsoddol, Treftadaeth ddiwylliannol, yr Economi, Cyflyrau'r ddaear (pridd a daeareg), Seilwaith a thrafnidiaeth, Defnydd tir a Thirwedd, Poblogaeth ac iechyd dynol (cymunedau), Adnoddau a gwastraff, yr Amgylchedd dŵr
<b>Wrecsam</b>			
<b>Cynllun Datblygu Lleol Wrecsam 2 (CDLI2) 2013–2028</b>	Mae'r Cynllun Datblygu Lleol hwn yn darparu strategaeth defnydd a datblygu tir hirdymor sy'n canolbwyntio ar gyflawni datblygu cynaliadwy a bydd yn arwain datblygiad ar gyfer tai, cyflogaeth, manwerthu a defnyddiau eraill. Ar ôl iddynt gael eu mabwysiadu, bydd y polisiau a nodir yn cael eu defnyddio i benderfynu ar	Lleolir rhan fechan o Ddalgyrch Hafren Uchaf o fewn ffiniau Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Dylai SVWMS roi sylw dyledus i'r weledigaeth, yr amcanion a'r polisiau a amlinellir yn y cynllun a sut y gallai'r cynllun effeithio ar y rhain, a sicrhau	Ansawdd Aer, Bioamrywiaeth, Ffactorau Hinsoddol, Treftadaeth ddiwylliannol, yr Economi,



Enw'r ddogfen	Disgrifiad	Perthynas â Strategaeth Rheoli Dŵr Dyffryn Hafren (SVWMS)	Cysylltiadau â phynciau Arfarnu Cynaliadwyedd
	geisiadau cynllunio ac i ddiogelu ardaloedd o dir y mae angen eu gwarchod neu eu gwella. Y meysydd y pwysleisir arnynt yn y cynllun yw tai, mannau agored, cyflogaeth, cymuned, trafnidiaeth ac addysg.	ei fod yn cadw at bolisiâu perthnasol (ar ôl iddynt gael eu mabwysiadu).	Cyflyrau'r ddaear (pridd a daeareg), Seilwaith a thrafnidiaeth, Defnydd tir a Thirwedd, Poblogaeth ac iechyd dynol (cymunedau), Adnoddau a gwastraff, yr Amgylchedd dŵr
<b>Cynllun Datblygu Unedol Wrecsam 1996–2011</b>	Mae'r Cynllun yn cynnwys ardal weinyddol Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Mae'r strategaeth yn amlinellu bwriad eang y Cyngor ar gyfer datblygu mewn gwahanol feysydd ac mae'n darparu fframwaith ar gyfer y polisiâu a'r cynigion mwy penodol. Amlinellir y polisiâu penodol yn y ddogfen, sy'n ehangu ar y weledigaeth strategol ar gyfer y Fwrdeistref Sirol a darperir canllawiau manwl ar gyfer datblygu a'r defnydd arall o dir.	Lleolir rhan fechan o Ddalgylch Hafren Uchaf o fewn ffiniau Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Dylai SVWMS roi sylw dyledus i'r weledigaeth, yr amcanion a'r polisiâu a amlinellir yn y cynllun a sut y gallai'r cynllun effeithio ar y rhain a sicrhau ei fod yn cadw at bolisiâu perthnasol.	Treftadaeth ddiwylliannol, Defnydd tir a Thirwedd